PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 370 | MEHEFIN 2014



Cap arall i Gymru t.13



t.4 Gwobr i Sharon



Arddangosfa gelf t.10

## Arddangosfa Ffion



Arddangosfa Ffion Gwyn – sy'n wreiddiol o Benrhyn-coch – yn Tonnau, Pwllheli – gweler t.3

## Mwynhau ar ôl y daith feics



Elan, Paige a Lois o Gylch Meithrin Rhydypennau yn mwynhau eu bagiau nwyddau ar ddiwedd Taith Feicio noddedig – gweler t. 12



## Taith noddedig

Dyma y criw fu'n cerdded gyda Beryl Vaughan, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol 2015, ar daith noddedig o ran o Lwybr Arfordir Cymru. Roeddynt yma yn dechrau ar y rhan o'r Borth i Lanrhystud.

# y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Medi

**Deunydd i law: Medi 5 Dyddiad cyhoeddi: Medi 17**

**MEHEFIN 19** Nos Iau Noson gelf a chrefft CIC yn festri y Garn am 7.00

**MEHEFIN 20** Nos Wener Barbeciw yn y Cartref am 6.30. Trefnir gan Ffrindiau Tregerddan

**MEHEFIN 21** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhynyn dilyn Owain Glyndwr gyda'r Athro Gruffydd Aled Williams. Enwau i Ceris Gruffudd 828017 Rhoshelyg@btinternet.com

**MEHEFIN 22- 23** Dyddiau Sul a Llun Arad Goch yn cyflwyno Mordaith anhygoel Madog yng Nghanolfan y Celfyddydau; dydd Sul am 6.30 a dydd Llun am 10.00 a 12.30

**MEHEFIN 25** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**MEHEFIN 27** Nos Wener Caws, Gwin & Chân yn Eglwys St. Pedr, Elerch Bont-goch gyda Chôr Meibion y Mynydd, Ensemble Cerddorol ac artistiaid lleol am 7.00. Mynediad: £7.00

**GORFFENNAF 4** Nos Wener Noson goffi yn festri Noddfa am 7.00

**GORFFENNAF 8-10** Dyddiau Mawrth i Iau Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn cyflwyno Cysgu'n brysur yn Pier Pressure, Aberystwyth Mawrth - 7.30; Mercher ac Iau Matinee am 1.00 ac yna am 7:30; Tocynnau ar gael drwy swyddfa docynnau'r Urdd.

**GORFFENNAF 10** Nos Iau Saethyddiaeth a cheufadio – gweithgareddau awyr agored CIC yn y Llain

**GORFFENNAF 12** Pnawn Sadwrn Te Hufen a Mefys yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch 3.00- 5.00

**GORFFENNAF 16** Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol PATRASA am 8.00 yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch.

**GORFFENNAF 17** Nos Iau Gêmau CIC ar draeth y Borth am 7.00 (Yn y Neuadd Gymunedol os bydd glaw)

**GORFFENNAF 18** Nos Wener Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno Ffion Dafis yn Anweledig gan Aled Jones Williams yng Nghanolfan Arad Goch am 7.30 Ffôn 617998 addas i 13 oed +

**GORFFENNAF 21** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r haf

**AWST 2** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor

**AWST 16** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch

**MEDI 2** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl gwyliau'r haf

**MEDI 6** Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau

**MEDI 10** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**MEDI 17** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn – Robat Arwyn gyda Chôr Ger-y-lli

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

### RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

| | |
|---|---|
| Jean Davies, Bow Street | £10 |
| Llinos Evans, Dôl-y-bont 'er cof am Defi' | £100 |

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ebrill 2014**

**£25** (Rhif 268) Tomos Llywelyn, Pant y Peran, Llandre
**£15** (Rhif 212) Gwyneira Marshall, Brogerddan, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 239) Ceris Gruffudd, Maesyrefail, Penrhyn-coch

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mai 21.**

**Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb. £5 y flwyddyn.**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

## Licris Olsorts

Da yw deall fod y cwmni – ar ôl blwyddyn o seibiant y llynedd – wedi bod yn brysur eleni eto yn cynhyrchu dwy ddrama dan arweiniad brwd y cynhyrchydd Sion Pennant, Bont-goch. Mae'r ddrama 'Cylymau' gan Marged Pritchard, wedi ei gosod mewn ystafell aros ac yn cyfleu'r tyndra rhwng y trigolion lleol sy'n aros i weld y doctor. Mae'r ddrama arall 'Parsel', cyfieithiad John Griffith Jones a Sion Pennant o ddrama fer David Campton yn adrodd hanes dwy chwaer yn gofalu am eu taid a'r helbul pan aiff taid ar goll.

Teitiodd criw y 'Parsel' i gystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ddiwedd Ebrill gan gipio'r drydedd wobr. Bu'r ddwy ddrama yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Corwen ddechrau mis Mai a llwyddodd criw y 'Parsel' i gipio'r ail ail wobr – gyda chanmoliaeth uchel i'r cynhyrchiad yn gyffredinol a'r actorion. Bydd y ddrama hon yn cael ei pherfformio yn Theatr Fach y Maes, ddydd Mercher yr Eisteddfod yn y gystadleuaeth perfformio drama fer. Pob lwc iddynt ar y cystadlu ddechrau Awst.



'Mabinogi', grŵp roc lleol a ddaeth yn ail ar y gystadleuaeth Roc yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn yr Wyddgrug. Jonathan Nefydd o Aberystwyth – drymiau; Huw ap Robert – gitâr a chanwr y grŵp a Melfyn Jones – gitâr, y ddau o Bow Street. Llun: Bill Evans. (O'r *Tincer* Mehefin 1984)

## 30 MLYNEDD YN ÔL

Ymddiheuriadau – achosodd diawl y wasg i rai enwau ddiflannu o bennawd llun Mai – dyma fo yn llawn - Cwmni drama Merched y Wawr, Penrhyn-coch ar ôl dechrau llwyddiannus i'r tymor. O'r chwith tu ôl: Susan Hughes, Mairwen Jones, Vera Evans; rhes flaen: Hywel Roberts, Megan Morgan, Edwina Davies, Gwenan Davies. Llun: Hugh Jones (O'r *Tincer* Mai 1984)

## Arddangosfa'r Haf

Un o'r rhai sy'n cymryd rhan yn Arddangosfa'r Haf yn Oriel Tonnau Pwllheli yw Ffion Gwyn, sydd bellach yn byw yng Nghricieth, Eifionydd. Un o Benrhyn-coch yw Ffion yn wreiddiol. Cafodd ei haddysg gynradd yn Ysgol Rhydypennau, ble bu ei thad, Brian Davies yn Brifathro. Symudodd wedyn i Ysgol Penweddig, ac yna dilyn cwrs celf sylfaen yng Nghaerfyrddin.

Dilynnodd gwrs gradd B.A mewn Serameg ym Mhrifysgol Caerdydd, a hi bellach yw Darlithwraig Gelf Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli.

Mae'n ymddiddori mewn mynydda a cherdded, ac o brydferthwch yr ardal o'i chwmpas y caiff ei hysbrydoliaeth. Defnyddia hefyd themâu sy'n ymwneud â'i haelwyd a'i theulu i liwio naws y gwaith creadigol. Mae'r gyfres o waith sydd yn yr Arddangosfa yn Tonnau yn gyfuniad o ddarnau brodwaith peiriant a chlytwaith sydd wedi ei seilio ar ddarnau o farddoniaeth a rhigymau, yn ogystal a pheintiadau acrylig o deithiau ar droed ar hyd traethau Llŷn. Dewiswyd un darn o'i gwaith ar gyfer Tlws y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr eleni.

Yn cyd arddangos â Ffion y mae Josie Russell, merch ifanc o Ben-y-groes, Dyffryn Nantlle, sy'n prysur wneud enw iddi 'i hun fel arlunydd tecstiliau; Jordan Lee, o Benrhos ger Pwllheli, sy'n trosglwyddo ffotograffau o Ben Llŷn ar ddarnau o froc môr, a thafarnwraig o Bwllheli, Elisabeth Stevenson sy'n defnyddio paent acrylig i ddarlunio adeiladau diddorol Pwllheli .

Y mae hon yn Arddangosfa arbennig, gyda phedwar arlunydd yn cynnig rhywbeth gwahanol ac unigryw.

Bydd yr Arddangosfa yn dechrau ar Orffennaf 5ed ac yn parhau trwy'r Haf, felly beth am ddal y trên i Bwllheli a threulio diwrnod difyr yn y dref, gan gofio galw i mewn yn Tonnau wrth gwrs!

Bydd y gwaith hefyd ar ein safle we - www.tonnau.com

# PENRHYN-COCH

**Horeb**
**Mehefin**
22 Taith i Ddolwar Fach ac oedfa yn Nolanog – enwau i Ceris
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Ysgolion Sul – Morlan 11.15; Garn 2.00)

**Gorffennaf**
6 10.30yb: Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri
2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30yb: Oedfa Deuluol
20 10.30yb: Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe
2.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
27 10.30 Oedfa gymun Gweinidog

**Awst – ymuno â eglwysi tref Aberystwyth 10.00 a 6.00**
3 Andrew Lenny - Seion
10 John Derek Rees - Bethel
17 Eifion Roberts - Morfa
24 R.O. Roberts – St Paul
31 Jenny Hurd (bore) Judith Morris (nos) - Bethel

**Medi**
7 10.30 Ysgol Sul
2.30 Oedfa gymun Gweinidog
14 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
21 10.30 Ysgol Sul
2.30 Oedfa bregeth Gweinidog - Bethel yn cydaddoli
28 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog



## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Mehefin, 9, 23 Gorffennaf, 13 a 27 Awst a 19 Medi. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cau ffordd

Cafwyd ar ddeall y bydd y gwaith ar y C1010 Pen-cwm, Penrhyn-coch yn dechrau ar 4ydd o Awst 2014 gan barhau am 6 wythnos – hyd 29 Awst. Ni fydd y gwaith dŵr ym Mont-goch wedi gorffen ond rhaglennwyd y gwaith fel y bydd llai gerbydau yn ystod cyfnod y cau ffordd.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Fercher y 7fed o Fai aeth y gangen i ddiweddu'r tymor ar daith ddirgel. Neb yn gwybod pa gyfeiriad fyddai'r bws yn mynd. Roedd pawb, fel nifer, yn ceisio dyfalu lle byddai pen ein taith. Cyrraedd o'r diwedd yn ddiogel yn 'Birchgrove', lle sydd yn adnabyddus dros y byd erbyn hyn. Ie! Lle mae cannoedd o ieir a'u hwyau yn cael eu gwerthu dros bob man. Aed a ni yn gyntaf i weld yr holl ieir yn yr awyr agored, "Free Range" wrth gwrs. Agoriad llygad i bawb ohonom. Yna cawsom fynd i bob adeilad lle mae y gwaith o ddidoli pob wy a gwneud yn siŵr eu bod yn mynd allan i wahanol fannau bob dydd yn ffres. Ar ôl cael croeso arbennig gan Gwen a Tony Burgess, y perchnogion, fe gawsom yr holl hanes a beth oedd eu gwaith yn cynnwys yn ddyddiol. Gwaith caled a phwysig dros ben. Cafodd pawb gwpanaid a bisgedi cyn dod oddi yno. Diolchwyd i Gwen a Tony am gael y gangen yno ac eto am y croeso arbennig a gawsom.

Yna ar ôl hyn aethom i Lety Parc i gael bwyd, croeso cynnes yno hefyd a'r bwyd yn fendigedig. Trafodwyd yn ystod y noson tipyn o fusnes y gangen a gwahodd pawb o'r aelodau i gymryd swyddi ar gyfer y dyfodol. Swyddogion y tymor nesaf yw:

Llywydd: Wendy Reynolds
Ysgrifennydd: Janice Morris
Trysorydd: Delyth Jones
Cofnodion: Delyth Ralphs
Dosbarthwr Y *Wawr*: Miriam Garrett
Gohebydd y Wasg: Mairwen Jones

Diolchodd ein Llywydd, Sue Hughes, i



bawb am ei gwaith yn ystod y tymor a fu, ac fe ategwyd hyn gan Mairwen efo'i rhigwm arferol. Noson wych i ddiweddu'r tymor. Dymunwyd pen blwydd hapus i Elsie. Rhaid llongyfarch y Parti Llefaru am ddod yn gydradd drydydd yn Ffair Haf ym Machynlleth. Llongyfarchiadau i Sharon Jones hefyd am ddod yn gyntaf am wneud clustog.

Llongyfarchiadau hefyd i Glenys Morgan, Sharon Jones a Mairwen Jones am ennill gwobrau yng Ngŵyl mis Mai Rhanbarth Ceredigion yn Felin-fach.

## Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £918.65l, sy'n cynnwys £93.50 o ginio'r tlodion a drefnwyd gan Eglwys Sant Ioan. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n casglu yn y pentref er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto.

Y casglwyr eleni oedd Sandra Beechey, Glyn Collins, Gabi a John Clifton-Brown, Alwen Fanning, Mervyn Hughes, Glenys Morgan, y Parchg Judith Morris, Gwenan Price, Wendy Reynolds, Wendy Roberts, Elenid Thomas a Ceri Williams.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Huw a Lowri Powell, 21 Maesyrefail, ar enedigaeth mab – Iwan Harri ar 19 Mawrth- brawd bach i Lydia, Iestyn a James.

Llongyfarchiadau i Gwydion a Sara ar enedigaeth merch fach, Florence Myfanwy Ifan, nos Sadwrn 7 Mehefin. Wyres i Sandra a Mansel Beechey a gorwyres i Glenys a Henry Thomas, Cwmfelin.

### Urdd y Gwragedd, Eglwys Sant Ioan

Bur gwragedd a ffrindiau yn ymweld â Talacharn ar eu trip blynyddol yn ddiweddar. Roedd yr haul yn gwenu drwy'r prynhawn wrth i ni grwydro llefydd roedd Dylan Thomas yn byw ac yn ysgrifennu ynghyd a'r man lle mae bellach yn gorffwys. Roedd y castell Eingl Normanaidd yn mynnu sylw hefyd gyda'r barcutiaud a golygfeydd ardderchog. Rhaid oedd galw yn Aberaeron ar y ffordd adref i roi diweddglo hyfryd i'r dydd.

### PATRASA

Fe gawsom ddiwrnod llwyddiannus ar ddydd Sadwrn,7fed Mehefin. Ar ôl glaw trwm y bore penderfynom gynnal y diwrnod yn y Clwb a diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth, ac i bawb a ddaeth i fwynhau yr awyrgylch ac i godi arian i gae chwarae y plant. Diolch hefyd i Darren Huxtable am ddod i ganu ac i Garej Tŷ Mawr am fod mor hael yn eu cefnogaeth bob amser. Fe ddaeth dau o frodyr R.A.O.B.Gogerddan i gyflwyno siec am dros £800 i'r achos. Diolch yn fawr iawn am eu cyfraniad hael.

*....parhad ar dudalen 6*



Brownies Penrhyn-coch wedi bod yn brysur yn gwneud anrhegion ar gyfer Sul y Tadau.



Criw Clwb Plant Hanner Tymor Horeb yn gwisgo masgiau anifeiliaid a grewyd ganddynt. Thema'r Clwb oedd stori Arch Noa a chafwyd hwyl arbennig yn cynnal gweithgareddau amrywiol. Byddwn yn cynnal y Clwb eto yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref nesaf.



### Taith Gerdded CIC

Ar nos Iau, 5ed Mehefin, bu Clwb CIC ar daith gerdded noddedig o gwmpas Penrhyn-coch o dan arweiniad Rees a Mary Thomas, Bow Street. Daeth criw da ynghyd i godi arian i'n gweithiwr ieuenctid, Zoe Glynne Jones, a fydd yn teithio i Uganda ym mis Gorffennaf i weithio gyda phlant sy'n dioddef o HIV yn slymiau'r brifddinas Kampala. Daeth y noson i ben gyda gwledd o gŵn poeth a chacennau yn festri Horeb.
Mawr yw ein gwerthfawrogiad i Rees a Mary am arwain y daith ac i Aeronwy, Heulwen a Marianne am baratoi'r lluniaeth flasus.



### Oedfa Genhadol y Chwiorydd, Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhaliwyd Oedfa Genhadol Chwiorydd, Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion ar ddydd Mercher 21ain Mai ym Methel, Dre-fach, Felindre, pan drosglwyddodd Mrs Mairwen Jones y llywyddiaeth i Mrs Gwyneth Jones, Penparc.

Yn y llun, o'r chwith i'r dde, gwelir: Miss Beti Thomas, San Clêr, Mrs Mairwen Jones,Penrhyn-coch, Mrs Gwyneth Jones, Pen-y-parc a Dr Menna Machreth Llwyd, Cyd-lynydd Cenhadaeth, Undeb Bedyddwyr Cymru.



Fe fydd Cyfarfod Blynyddol PATRASA ar nos Fercher, 16ed o Orffennaf am 8pm yn y Clwb - croeso i BAWB - mae angen mwy o wirfoddolwyr arnom felly dewch i ymuno â ni os gwelwch yn dda.

### Bingo

Cynhelir Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch ar y dyddiadau canlynol: 19/09/2014; 17/10/2014; 21/11/2014 am 7.00 o'r gloch

### Diolch

Dymuna Elsie a Morris ddiolch o galon am y llu cyfarchion a gafodd Elsie ar achlysur ei phen blwydd yn 70 oed. Derbyniwyd rhoddion hael ariannol o £860 yn lle anrhegion, tuag at Apêl Fflur a Chlinig Llygaid Ysbyty Bron-glais, o dan ofal Mr David Barr a'i staff. Croesawyd nifer o deulu a ffrindiau Elsie i wledd yn Neuadd yr Eglwys a baratowyd gan Ffion, Gwenllian, Heulwen a Glyn, Catrin a John a Sioned, Sandra a Sera a Selwyn. Ar ddiwedd y prynhawn torrwyd y gacen gan Elsie a wnaed gan Catrin ac Owen a'r teulu. Diolch yn fawr.

### Gwellhad buan

Da yw deall fod Mona Edwards, Hafod wedi dod gartref o'r ysbyty, ac yn gwella yn araf. Hefyd, Dr Waddad Williams, Tebeldy, a Connie Evans.

Dymunwn wellhad buan i Mervyn Hughes, Ger-y-llan ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Da yw deall fod Don, Maesyfelin yn gwella yn araf. Gwellhad buan i bawb sydd yn dioddef o anhwylder ar hyn o bryd.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Howell Evans a'r teulu, 15 Y Ddolfach, ar golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau i bencampwyr cystadleuaeth parau Cynghrair Dartiau Aberystwyth a'r cylch, Jack Jones a Ronnie Evans. Hefyd yn y llun capten y tîm dartiau Peter (van Gerwen) Davies.

**Te Hufen a Mefys**
**Sad 12 Gorffennaf**
**3 – 5yh**
**Adloniant – Raffl –**
**Stondin cynnyrch cartref**
**Croeso cynnes i bawb**
**Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch**

## DOLAU

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ifor a Margaret Mason, Bryngwyn Mawr, ar enedigaeth eu hŵyr newydd, Caio Llywelyn Mason Lewis. Mab i Barry a Catrin a brawd bach i'r efeilliaid Osian a Bleddyn. Pob hwyl i'r teulu bach yn Nhal-y-bont.

## DÔL-Y-BONT

### Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau am ben blwydd hapus iawn i Gloria Davies, Maes y Leri, a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 ddiwedd Gorffennaf.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlo

Estynnwm ein cydymdeimlad â Nora a Clive Higgs Abernant, ar farwolaeth chwaer Nora ar ôl cyfnod hir o salwch.
Yn ddiweddar hefyd bu farw Ena Jones o Swanage, chwaer yng nghyfraith i'r diweddar Dennis Benjamin, Glwysgoed.
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf treuliodd Mrs. Jones dipyn o amser yng Nglwysgoed. 'Roedd yn enedigol o'r Alban a 'roedd wrth ei bodd pan fyddai yn ymweld â'r ardal yma. Estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â Donald a Davena a'r teulu i gyd yn eu colled.

### Pen blwydd

Cyn y daw *y Tincer* nesaf o'r wasg mi fydd Mair Stanleigh wedi dathlu ei phen blwydd yn gant ac un. Hir y cofiwn am y dathliadau y llynedd! Pen blwydd hapus iawn i chi, mae pawb yn yr ardal yn meddwl amdanoch yng Nghartref Pennal View, Blaenpennal.

### Garddwest

Llongyfarchiadau i Amanda Burton, gynt o Tŷ- Poeth, ar gael yr anrhydedd gan ei chyflogwyr, Sioe Frenhinol Cymru , i fynychu garddwest ym Mhalas Buckingham. Profiad arbennig iawn iddi hi a Charles oedd cael treulio rhai dyddiau yn y Ddinas fawr.


inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

y tincer

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 8 Ebrill, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Shan James, Dai Mason (Cynghorydd Sir yn ogystal), Dai Rees Morgan, Richard Owen ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd a'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Materion yn codi - Maes Seilo: roedd ateb wedi dod oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud nad nhw oedd bellach yn gyfrifol am Faes Seilo ac y dylai'r Cyngor Cymuned gysylltu unwaith yn rhagor â Thai Ceredigion;

Y Gofeb: byddai dyddiad yn cael ei drefnu yn ystod yr haf i beintio'r ffens o amgylch y Gofeb; roedd y Clerc wedi anfon llun o'r car oedd yn achosi rhwystr ger y fynedfa i Glan Ffrwd i'r heddlu.

Cynllunio - A140105, cais i godi gweithdy yn IBERS - dim gwrthwynebiad.

Cafwyd adroddiad gan Eirian Reynolds ar gyfarfod diweddar lle'r oedd cynrychiolwyr o Gyngor Ceredigion wedi dod i gyfarfod cynrychiolwyr o nifer o gynghorau cymuned yn Neuadd Rhydypennau.

Materion eraill - Adroddwyd fod sbwriel wedi cael ei adael wrth ymyl y coed ger Gwar-ffin. Roedd coeden yn pwyso dros y ffordd ger Llwyn Prysg, ac yn ei gwneud yn anodd i gerbydau mawr fynd heibio. Nododd Mel Evans fod y borfa oedd yn tyfu yng nghanol y ffordd i Salem yn achosi trafferthion i gerbydau, ac roedd y mater angen sylw. Nowyd fod twll yn y ffordd wrth ymyl Brogerddan. Dywedwyd wrth y Clerc am dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion hyn.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Mai am 7.00pm yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch ar gyfer y cyfarfod misol arferol, a chynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol am 8.00pm. Yn y cyfarfod misol roedd y Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair ac roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Shan James, Dai Mason, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol, ynghyd a'r Clerc. Hefyd roedd tri aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Materion yn codi - roedd yr heddlu wedi cydnabod derbyn y gwyn am y car oedd yn achosi rhwystr ger Glan Ffrwd.



Adroddwyd fod problem gyda sbwriel yn cael ei adael ger Llyn Pen-dam.

Cynllunio - Cais A140232, estyniad i 63 Dolhelyg - dim gwrthwynebiad; cais A140172, cais am dŷ ar gyfer defnydd amaethyddol yng Nghefn Llwyd - dim gwrthwynebiad. (Fe wnaeth Tegwyn Lewis ddatgan budd yn y cais hwn, a doedd o ddim yn bresennol ar gyfer y drafodaeth.)

Cyfarfodydd a fynychwyd - roedd Gwenan Price wedi bod mewn cyfarfod a fu'n trafod sut i goffàu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn yr ardaloedd hyn. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n cefnogi'r gweithgaredd mewn egwyddor, ac edrychai'r aelodau ymlaen at gael ychwaneg o wybodaeth am y cynllun. Roedd Trefor Davies wedi bod mewn cyfarfod o bwyllgor Sioe Trefeurig.

Materion eraill - Dywedodd Edwina Davies fod dymuniad yn Nhrefeurig i'r meini coffa perthynol i'r ddau ryfel byd oedd yn awr yn yr hen ysgol gael eu symud gan fod bwriad i werthu'r ysgol. Gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn debyg o gytuno i'r meini gael eu symud i Gae Chwarae Trefeurig a oedd yn eiddo i'r Cyngor Cymuned. Nid oedd y Cyngor yn gweld unrhyw rwystr i hyn, ond gellid trafod y cais yn llawn pan ddeuai cynllun pendant o flaen y Cyngor. Nododd Eirian Reynolds fod camfa ger Coed Melin Gruffudd angen ei thrin; nodwyd hefyd fod angen clirio'r cwteri ger Pont Tyngelli - penderfynwyd codi'r ddau fater gyda'r Cyngor Sir. Nododd Edwina Davies fod angen edrych ar y meinciau oedd yn eiddo i'r Cyngor er mwyn gweld pa rai oedd angen sylw, a phenderfynwyd y dylid trafod hyn yn y cyfafod nesaf. Penderfynwyd cynnal cinio blynyddol y Cyngor nos Wener, 30 Mai.

Ethol swyddogion ar gyfer 2014/15. Cynigiodd Tegwyn Lewis fod yr Is-gadeirydd, Shan James, yn cael ei hethol yn Gadeirydd ar gyfer 2014/15 ac eiliwyd ef gan Richard Owen, a phasiwyd y cynnig. Cynigiodd Gwenan Price fod Dai Mason yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd ac eiliwyd hi gan Dai Rees Morgan, a phasiwyd y cynnig. Byddai hyn yn cael ei gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol oedd i ddilyn am 8.00pm.

Yn y Cyfarfod Blynyddol diolchodd y Cadeirydd, Tegwyn Lewis, am bob cymorth yr oedd wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a aethai heibio, gan yr aelodau a chan y Clerc, a chyfeiriodd at wasanaeth Daniel Jones, a oedd wedi gadael y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Nododd hefyd fod Cadeirydd Cyngor Ceredigion wedi ymweld â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Un o'r prif faterion oedd yn poeni'r Cyngor oedd cyflwr y ffyrdd yn yr ardal, mater a oedd yn destun pryder yn gyffredinol. Dymunodd bob llwyddiant i'w olynydd yn y swydd.

Wedi hynny fe gadarnhawyd ethol Shan James yn Gadeirydd ar gyfer 2014/15 a Dai Mason yn Is-gadeirydd. Trosglwyddodd Tegwyn y gadeiryddiaeth i Shan. Diolchodd hithau i Tegwyn am ei waith yn ystod y flwyddyn.

Dewiswyd y cynghorwyr canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol: Neuadd y Penrhyn, PATRASA, Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch - Gwenan Price; Cae Chwarae Trefeurig, Pwyllgor Hen Ysgol Trefeurig - Trefor Davies; Cartref Tregerddan - Gwenan Price a Dai Rees Morgan; Un Llais Cymru - y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd; Pwyllgor y Fferm Wynt a Gohebydd y Wasg - Richard Owen.

Cylchredwyd y Datganiad Ariannol a'r Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau ar gyfer 2013/14 i'r aelodau ac fe'u cymeradwywyd.

Ni chodwyd unrhyw fater gan yr aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Fawrth, 17 Mehefin yn Neuadd y Penrhyn.

# LLANDRE

### Buddugol

Llongyfarchiadau i Llio Penri – daeth Côr gwerin Ysgol Bro Ddyfi, dan ei harweinyddiaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlathol yr Urdd mewn cystadleuaeth gref.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr, Genau'r-glyn nos Lun Mai 19eg, Croesawyd Mrs. Mary Thomas a Mrs. Llinos Evans yn ôl i'n plith.

Adroddodd y Llywydd iddi fod yn bresennol yng ngŵyl Haf Cenedlaethol Merched y Wawr ym Machynlleth ac yn falch o fod yno oherwydd i Mrs. Llinos Dafis, un o'n haelodau ennill gwobr Patagonia am yr ysgrif orau i ymddangos yng nghylchgrawn *y Wawr*. Mae'n braf gweld aelod o gangen mor fach yn ennill gwobr genedlaethol.

Wrth drafod cynlluniau'r gangen am y flwyddyn nesaf, cynigiodd Nyrs Gwenda James y byddai'n fodlon delio gydag unrhyw ohebiaeth, ac 'roedd Llinos Dafis, er yn absennol o'r cyfarfod, wedi cytuno i barhau fel trysorydd. Pasiwyd y byddai pob cyfarfod yn cael ei drefnu gan ddwy aelod, gan newid yn fisol, fel bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu at y rhaglen.

Cynhelir trip fin nos y gangen, nos Lun Mehefin 16eg, byddwn yn teithio mewn ceir ac yn cychwyn am 6.30. Bydd yr Ysgrifennydd wedi trefnu lle i bawb yn y ceir ac wedi cysylltu mewn pryd. Gobeithiwn am noson braf!

### Treftadaeth Llandre

31 Gorffennaf - Taith ddirgel ar fws.

### Ras am Fywyd (Race for Life)

Dai iawn ferched Llandre a gymerodd ran yn y Ras am Fywyd ar ddydd Sul Mai 18. Mae'r ras yn agored i ferched o bob oedran i godi arian at ymchwil cancr. Diolch i'r rhai a gyfrannodd.

### Pen blwydd Hapus

Pen blwydd hapus i Siân Harvey, Abel-Gur, Lôn Glanfred a ddathlodd ei phen blwydd yn 18 ar yr 28ain o Fai.

### Cywiriad

**Priodas Arian** - Llongyfarchiadau i Barry a Helen Jones, Hafod, Taigwynion ar ddathlu eu priodas arian yn ystod mis Ebrill.

### Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Buddug Thomas (Troed y Bryn) a fu farw ar Fehefin 3 yng Nghartref Tregerddan, yn 94 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Gwenno a Haf a'u teuluoedd ar golli mam, nain a hen-nain arbennig.

Cydymdeimlwn â Graham a Delor Harvey a'r marched, Abel-Gur, Lôn Glanfred ar farwolaeth tad Graham mis diwethaf.

### Banc Bro

Enillwyr mis Mehefin 2014
£30 Huw Meirion, Banc yr Eithin
£20 Meirion Lewis, Dôl-y-bont
£10 Mrs D Francis, Trawscoed

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Llinos Dafis, Cedrwydd, ar ennill Gwobr Patagonia am Yr Erthygl Orau yng nghylchgrawn *Y Wawr* - rhifyn Hydref 2013. Cyflwynwyd y wobr i Llinos yng Ngŵyl Haf Cenedlaethol Merched y Wawr 2014 ym Machynlleth.

*Gweler yr erthygl ar t.9*



# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasananaethau y Sul, Capel Pen-llwyn**
*Mehefin*
22 Dr Rhidian Griffiths am 10 o'r gloch.
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Ysgol Sul Morlan 11.15; oedfa - Garn 2.00)

*Gorffennaf*
6 Bugail .......... am 10 o'r gloch
13 .......... Oedfa'r Ofalaeth
20 Miss Beti Griffiths am 10 o'r gloch
27 Dr Terry Edwards am 5 o'r gloch

### Eisteddfod yr Urdd

Gwelsom Nannon Jones, Tangeulan, a Ffion Williams, Brynrheidol ar y teledu yn ennill y Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 a hefyd y Cerdd Dant, ymhlith un neu ddau o gystadlaethau eraill. Da iawn chi!

### Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg yr oedd Mrs Gwyneth Smart, Sunnycroft,, yn Ysbyty Glangwili wedi derbyn triniaeth llawfeddygol.Brysiwch wella, Gwyneth, a gobeithio y byddwch adref yn fuan. Dymuniadau gorau oddi wrth aelodau'r capel, ffrindiau a chymdogion.

# TREFEURIG

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Owen Roberts a Caryl Wyn Jones ar eu dyweddiad ar 31 Mai

# Rhai Hoff Bethau

## Llinos Dafis – Cangen Genau'r-Glyn, Merched y Wawr

Fe ddechreuais ar y dasg hon ym mis gogoneddus Mai - 'Rhyw awr o baradwys yw mwynder mis Mai' meddai T. Gwynn Jones - pan oedd yr ardd yn llawn lliw, yn enwedig eurliwiau melyn ac oren y Pabi Cymreig. Mae'r blodyn bach yma yn hollbresennol bellach, yn cyrraedd yn ddiwahoddiad ac yn trechu'r dant-y-llew a'r ysgall i ddod a swyn i fylchau a chraciau fu mor ddiolwg gynt. Ddechrau'r 1960au y des i'n ymwybodol ohono gyntaf, pan holais gymydog, a oedd wedi ei geni a'i magu yn Lerpwl, beth oedd y blodyn bach serchog oedd yn llonni'r clawdd ar bwys ei thŷ. *"That's a Welsh Poppy, didn't you know?"* atebodd, gyda chryn syndod.

Fe ledaenodd wedi hynny gan ymddangos ym mhobman fel pe dros nos. Ar daith gerdded y Pyreneau ym mis Awst 1995, a ninnau wedi mynd i fyny y tu hwnt i linell yr eira, dyna lle roedd yr wyneb bach melyn cyfeillgar rhwng y creigiau - roedd fel cwrdd â hen ffrind. Wyddwn i ddim ar y pryd mor gyffredin oedd e mewn rhai ardaloedd yng Ngorllewin Ewrop. Pam felly, tybed, y dewisodd Linnaeus, yn 1753, ei alw'n Babi Cymreig? Yn sicr doedd e ddim i'w weld yn fy rhan fach i o Gymru cyn ail hanner y ganrif ddiwethaf.

Mae stôl-fach yn ein tŷ ni gyda'r enw Margaret Davies Nantyfallen wedi ei gerfio oddi tani. Pan own i tua naw oedd yn cerdded adref o'r ysgol heibio i dŷ chwiorydd fy nhad-cu, dyma f'Anti Mary yn dod allan "Cer â hon adre i dy fam" meddai'n ddiseremoni. Er nad yw'n drwm nac yn fawr, dw i'n cofio'r blinder a'r anghysur wrth ei chario'r cwta hanner milltir i'n tŷ ni.

Yno fe ges wybod mai fy hen fam-gu oedd Margaret Davies, a anwyd yn 1851 yn ardal Llanilar. Bu raid iddi adael ei chartref yn saith oed i fynd i fugeila ar fferm. Priododd fy hen dad-cu, John Davies, gweithiwr mwyn a mynd yn löwr yng nghymoedd y de, arhosodd Margaret a'r teulu yn Bow Street, ac yntau'n cymudo yn ôl ac ymlaen. Fe'i lladdwyd tan ddaear pan oedd Marged yn feichiog gyda'u hwythfed plentyn. I gael dau ben llinyn ynghyd bu'n gwau sanau - yn ôl fy mam byddai'n gwau'n ddi-baid, gan gadw'r waell chwith mewn gwain a gweithio gyda'r dde. Atgof arall gan fy mam oedd fel y byddai hi yn ferch fach yn cael ei hanfon i mofyn wyau o fferm Brysgaga; yn aml iawn byddai un neu fwy ohonyn nhw wedi torri erbyn iddi gyrraedd tŷ ei mam-gu ar y ffordd yn ôl, a'r hen wraig brin-ei-harian yn rhoi rhai cyfan yn eu lle rhag i'w hwyres gael stŵr.

Fe etifeddais rywbeth arall gan Marged. Yn ôl yr hyn a glywais roedd ei thrwyn hi wastad yn dynn. Felly hefyd ei gor-wyres! Er hynny mae Marged yn sicr ei lle ymhlith fy nghwmwl tystion.

Ar y wal uwchben lle tân ein parlwr mae paentiad o gapel braidd yn anghyffredin yr olwg – Capel Undodaidd Bwlch-y-Fadfa, ger Talgarreg. Robert Blainey oedd yr arlunydd. Anrheg yw'r llun a gefais gan yr ysgol Sul pan symudon ni o'r ardal. Rwy'n ei drysori oherwydd y bywyd hapus a llawn mae'n dystiolaeth ohono, - y croeso cynnes gawson ni pan symudon ni i'r ardal yn bâr ifanc, y cwmni a fyddai'n ymgasglu wrth yr iet yma i sgwrsio ar ôl yr oedfa, y trafod ynghylch trip yr ysgol Sul, dyddiad gwasanaeth y Nadolig, atgofion am yr hyn a fu, cyfeillgarwch y plant a'u rhieni a fu mor gefnogol i waith yr ysgol Sul, ymarferion ar gyfer gwasanaethau'r plant a'u sbri o orfod cerdded drwy'r fynwent ar nosweithiau tywyll y gaeaf, y wefr adeg gwasanaeth y Nadolig o weld golau ffenestri'r capel bach yn ein croesawu, ac wedyn y bedyddiadau, y priodasau, a'r angladdau – does dim pall ar yr atgofion. Mae'r lleisiau a'r wynebau i gyd yn llenwi fy synhwyrau wrth i fi edrych ar y llun.



**Ychydig ddyddiau ar ôl ennill Gowbr Patagonia roedd Llinos ar ei ffordd i gyfarfod â thair o'r Gaiman oedd ar wyliau yn Aberystwyth. Daeth a'r llun efo hi i ddangos – a chael syndod pan ddeallodd fod un o'r tair – Nelda Marras – sy'n siarad Cymraeg rhugl - yn chwaer i'r diweddar Horracio Marras – yr arlunydd wnaeth y darlun o fachgen o'r Andes - rhodd i fudiad Merched y Wawr gan Gymdeithas Gymraeg y Gaiman.**

Allwn i ddim gorffen hyn o restr heb sôn am Tos, y ci bach rhydliw o frid Marchogion y Brenin Siarl sy'n byw gyda ni ac yn ein helpu i ryddhau endorffinau cadarnhaol mewn dwy ffordd, sef trwy beri i ni godi allan a mynd ag e am dro, a thrwy wneud dim mwy nag edrych arnom ni,

"A'i olwg fel yn wylo
Wadu iaith i'w dafod o"
(*T. Gwynn Jones*)

*Diolch i Merched y Wawr am ganiatâd i gyhoeddi yr erthygl hon*









# GOGINAN

### Pob Lwc

Dymuniadau gorau i Brenda Haines ar ei blwyddyn fel Maeres Aberystwyth. Ganwyd a magwyd Brenda yng Ngoginan, ac mae'n braf gweld person lleol wrth y llyw.

### Llongyfarchiadau

Elen Williams, Penrhiwlas a ddathlodd ei phen blwydd yn wyth deg ar Fai 27. Ein dymuniadau gorau iddi am sawl pen blwydd arall.

### Pen blwyddi

Pen blwydd hapus cynnar i Mair Jones, Coedlan, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn wythdeg ar Orffennaf 4 a hefyd Bryn Price, Panteg yn saithdeg ar Orffennaf 26. Gobeithio caiff y ddau amser da yn dathlu.

### Arddangosfa

Pob lwc i Heather Eastes, Yr Hen Ysgol ar yr arddangosfeydd mae wedi helpu eu trefnu gan artistiaid o Gymru a'r Almaen. Bydd yr arddangosfa yng Ngaleri Nwy, Aberystwyth o Orffennaf 3 hyd at Orffennaf 29.





Mae *Yma ac Acw/Hier und Da/Here and There*, yn brosiect cyfnewid diwylliannol ar y cyd rhwng y Grŵp Cymreig a changen Düsseldorf y BBK/ Cymdeithas Ffederal Artistiaid Cain yr Almaen. Dechreuodd Katja Kölle o Düsseldorf a Heather Eastes drafod y posibiliadau ynghylch cyfnewid sawl blwyddyn yn ôl. Mae hyn bellach wedi dwyn ffrwyth gyda chyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd penodol yn 2014 a 2015.

Mae'r BBK a'r Grŵp Cymreig yn gymunedau o artistiaid proffesiynol yn darparu cefnogaeth, fforymau a chyfleoedd arddangos i'w haelodau. Dyweda Wilfried Neuse, llefarydd BBK, 'Rydym yn ceisio hyrwyddo sgyrsiau diwylliannol gyda chyd artistiaid tramor, gan gyfrannu at heddwch a chyd-ddealltwriaeth. Rydym yn falch iawn o gael y cyfle i wireddu prosiect cyfnewid gydag artistiaid o'r Grŵp Cymreig. Mae'r cyfle i arddangos ym Mhrydain fel gwesteion i'r Grŵp Cymreig ar ganmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn golygu cymaint i'n hartistiaid. Rydym wrth ein bodd â'r posibilrwydd o wneud y Grŵp Cymreig yn fwy adnabyddus yn Düsseldorf'.
'Rydym yn gobeithio bydd ein holl aelodau'n elwa o'r prosiect hwn, ac y caiff ddylanwad ar gymunedau artistig yn y ddwy wlad a denu cynulleidfaoedd newydd.'









# Colofn Enwau Lleol – Sebon


Mae dau enw yn ardal *y Tincer* sy'n cynnwys yr elfen *sebon:* Cwm Sebon, y dyffryn cul sydd wedi ei leoli rhwng pentrefi Pen-bont Rhydybeddau a Chwmerfin, ac a ddaeth i enwogrwydd oherwydd y gwaith mwyn plwm a chopr oedd yno (South Darren Mine yn ddiweddarach), a thyddyn Throedrhiwsebon, ychydig uwchaw'r orsaf bŵer yng Nghwm Rheidol.

Cyfeiriad yw *sebon* yn yr enwau hyn at garreg sebon ('steatite' neu 'soap-stone'), carreg a ddefnyddid gynt i olchi. Tystiai Llew Davies, Llwynderw, Pen-bont, bod carreg o'r fath yn yr afon yng Nghwm Sebon. Mae'n debygol mai dyna yw arwyddocâd yr elfen yn yr enw Craig Sebon yn Nant Ffrancon, sir Gaernarfon, yn ogystal.

Digwydd *sebon* hefyd fel elfen mewn enwau nentydd ac afonydd, ond ymddengys mai cyfeiriad at ddŵr ewynnog ydyw yn yr achosion hynny. Ceir enghreifftiau o Nant y Sebon ym Mhenrhosllugwy, Môn, ger Llangynog yn sir Drefaldwyn, ac yn Llanfynydd, sir Gaerfyrddin.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org




© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2014). All rights reserved. (1880s).

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae'r ymgyrch i gynnal a gwella gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion yn parhau – ac yn wir mae fel petai'n frwydr ar sawl ffrynt ar hyn o bryd!

Yn Aberteifi, mae yna gais wedi ei roi ger bron y Llys am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i gau gwelyau yn yr ysbyty. Un ffactor allweddol yw fod y Bwrdd Iechyd heb gynnal ymgynghoriad llawn gan ddadlau nad oedd newid 'sylweddol' yn y gwasanaethau. Dydy hyn ddim yn ymddangos yn deg i mi, ac rwy' wedi bod yn cydweithio efo'r cyfreithiwr arbenigol sy'n paratoi'r achos.

Yn Nhregaron, cynhaliais gyfarfod yn ddiweddar gyda'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd am ddatblygiad Cylch Caron. Mae'n hollbwysig fod y datblygiad yma yn cwrdd ag anghenion y gymuned. Mae potensial i hyn fod yn bositif iawn i ofal iechyd a chymdeithasol yng Ngheredigion, ac mi fyddaf yn parhau i gadw golwg manwl ar sut y mae'r cynllun yn mynd rhag blaen.


Yn achos Ysbyty Bron-glais, y prif bryderon ar hyn o bryd yw gwasanaethau mamolaeth a thriniaeth y galon. Ry'n ni'n gwybod am dueddiad y Bwrdd Iechyd i fod eisiau canoli yng Nghaerfyrddin, ond mewn ardal wledig, mae'n rhaid ystyried pellter y gwasanaethau. Dyna pam y sefydlwyd grwp ymchwil gan Lywodraeth Cymru i ystyried dyfodol hir-dymor Bron-glais a'i dalgylch, ac mae'n allweddol nad oes penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud cyn i'r ymchwil hynny ddod i ben. Holais y Prif Weinidog ar y mater yma yn ddiweddar, a chytunodd na ddylai fod unrhyw ganoli o wasanaethau'r galon heb ymgynghoriad llawn nac ystyriaeth i ganfyddiadau'r grŵp ymchwil. Mae gan wasanaethau'r galon ym Mron-glais enw da iawn, ac mae'n rhy bwysig i'w golli.

Yng nghanol yr ymgyrchu, mae hefyd gyfleon i ddathlu talentau lleol ar eu gorau. Braf oedd gweld llwyddiant cynifer o bobl ifanc Ceredigion yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bala. Rwy' hefyd yn edrych ymlaen at weld tîm Cymru yn cystadlu yng Ngêmau'r Gymanwlad yn Glasgow dros yr haf, ac roedd ymweliad y 'baton' â Cheredigion, yn ogystal â'r rasys beicio yn Aberystwyth sy'n mynd o nerth, yn ein atgoffa fod haf prysur o chwaraeon ar y gorwel.

# Taith gerdded y mis

## Bont-goch i Llawrcwmbach

**Man Dechrau**: Wrth bont afon Leri yn Bont-goch
**Map**: OS Explorer 213. GR 683864.
**Pellter**: 4.2 filltir , hawdd ar wahân i ychydig o ddringo ar ôl croesi'r afon.




Dilynwch y feidr sydd yn mynd i Llawrcwmbach a throi i'r chwith i osgoi Llanerchclwydau. Yn ôl i'r feidr am tua chwarter milltir a throi ymlaen drwy ddau gae i ymuno â'r feidr nes ymlaen. Ewch heibio Llawrcwmbach nes cyrraedd hen adeilad- trowch lawr ar hyd y llwybr i'r bontbren ac i fyny i gwrdd â feidr arall sydd yn mynd draw i Llety Ifan Hen. Ychydig cyn y fferm dilynwch y llwybr i'r dde, ac i lawr heibio'r gwaith dŵr ac yn ôl i'r man dechrau.

Os am ymestyn y daith cariwch ymlaen ar hyd y llwybr o Llawrcwmbach a thros y bontbren i Llawrcwm Mawr, ac fe welwch lwybr yn mynd lan i'r goedwig ac i'r feidr.
Mae'r darn hwn yn ychwanegu tua milltir.

Ymddiheuriadau – ymddangosodd y map anghywir gyda taith Mai (Gol.)

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

y tincer
ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

**Oedfaon**
Capel y Garn 10.00 a 5.00
Gweler http://www.capelygarn.org/
**Mehefin**
22 Edwyn Hughes
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Oedfa'r bore ar y cyd a Gŵyl yr Ysgolion Sul – Morlan 11.15 Thema: 'Arwyr'; Oedfa gymun yn y Garn 2.00pregethir gan y Parch Ddr D Ben Rees). Oedfa arbennig ar y thema Cofio'r cewri a luniodd y Gymru anghydffurfiol: Howell Harris (1714-1773) a Thomas Charles (1768-1814). Traddodir y neges gan Ysgrifennydd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd, sef y Parchg Ddr D. Ben Rees.

**Gorffennaf**
6 Rhidian Griffiths
13 Oedfa'r ofalaeth
20 Bugail
27 Eric Greene


**Awst**
3 Noddfa
10 Lewis Wyn Daniel
17 Noddfa
24 Lyndon Lloyd
31 Noddfa

**Medi**
7 Adrian Williams
14 Huw Roderick Bugail
21 Bugail
28 John Tudno Williams

**Noddfa**
**Gorffennaf**
6 Uno yn y Garn am 10.00
13 Oedfa am 2.00. Gweinidog Cymundeb.
20 Oedfa am 2.00. Gweinidog
27 Oedfa am 5.00. Gweinidog

**Awst**
3 Oedfa am 10.00. Gweinidog
10 Uno yn y Garn am 10.00
17 Oedfa am 10.00. Gweinidog
24 Uno yn y Garn am 10.00
31 Oedfa am 10.00. Gweinidog

**Medi**
7 Uno yn y Garn am 10.00
14 Oedfa am 5.00. Gweinidog
21 Oedfa am 2.00. Gweinidog
28 Oedfa am 2.00. Gweinidog




## Haf prysur

Llongyfarchiadau i Jordan Lloyd Jones, Maes Awelon, am gael lle yn y Theatr Gerddoriaeth Ieuenctid yr haf yma. Bu Jordan yn y clyweliadau yng Nghaerdydd yn ôl ym mis Chwefror pan fu dros 1,300 o blant rhwng 11 a 21 oed glyweliad i fod yn rhan o un o'r wyth sioe a gynhelir ledled Prydain dros fisoedd yr haf Mae Jordan wrth ei fodd iddo gael ei dderbyn i gymryd rhan mewn fersiwn lwyfan o'r llyfr rhyngwladol poblogaidd Ali & Nino, un o'r ychydig nofelau 'Foundling' lle mae dal anghydfod ynghylch ei hawduraeth.
Bydd y cwrs pythefnos yn Bracknell, Berkshire, a chaiff y sioe ei pherfformio ar Awst 23ain a'r 24ain yng Nghanolfan Gelfyddydau South Hill Park, Bracknell, ger Reading Mae'n rhaid i Jordan ariannu'r cwrs ei hun felly mae wedi bod yn brysur yn gwneud arwerthiannau cist car a chodi arian trwy ddulliau eraill eraill er mwyn helpu i dalu am y cwrs. Mae'n teimlo yn gyffrous ei fod yn cael gweithio gyda chwmni mor broffesiynol. Bu'n rhan o Theatr Ieuenctid Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ers iddo fod yn 7 mlwydd oed, gan gymryd rhan mewn llawer o sioeau a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae'n aelod brwd o Wardeiniaid Aberystwyth, ac roedd yn ddigon ffodus i fod yn Only Kids Aloud yn 2012 /13 gan deithio i Rwsia i ganu yn y theatr Marrinsky. Da iawn Jordan a phob lwc!

## Sul Cymorth Cristnogol

Bore Sul, 18 Mai, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg Wyn Morris, i nodi diwedd wythnos Cymorth Cristnogol. Trwy gymorth ffilm a sleidiau, gwelwyd sut mae mudiad Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid yn newid bywydau pobl yn Colombia, Swdan ac Irac. Yn dilyn y gwasanaeth paratowyd cinio syml o fara a chaws yn y festri, a gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.


Dylan Herron ar fin cychwyn ar ei daith.

## Cylch Meithrin Rhydypennau

**Taith Feicio Noddedig:**
Yn mis Mai cynhaliodd y Cylch Meithrin Daith Feicio Noddedig er mwyn codi arian tuag at adnewyddu ein lle chwarae awyr agored. Er ei bod yn fore gwyntog, daeth 24 o blant bach y Cylch, ffrindiau a chyn ddisgyblion i ymuno â ni ar ein taith i fyny ac i lawr Coedlan Plas-crug. Er y tywydd gwyntog cawsom lawer o hwyl a llwyddom i godi £631. Felly hoffai staff ac aelodau pwyllgor y Cylch ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ac wrth gwrs i'r plant am eu gwaith caled ar y dydd. Da iawn chi!

## Croeso

Croeso cynnes iawn i Phil ac Anna Mostyn, a'u merch fach, Chloe, sydd wedi symud i Bryncastell o swydd Gaer.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Menna ac Elgan Davies a'r teulu, Maes Afallen, ar farwolaeth Mair, chwaer Menna, o Dreorci ar Fai 28.



## Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun, 12fed o Fai croesawodd ein Llywydd, Mrs Marian Beech Hughes, pawb i'r cyfarfod blynyddol pryd etholwyd y swyddogion am y flwyddyn 2014/2015;
Mrs Mary Thomas - Llywydd;
Miss Lynda Stubbs - Ysgrifennydd;
Mrs Lisa Davies - Trysorydd;
Mrs Shân Hayward - Is-lywydd;
Mrs Eirian Dafis - Is-ysgrifennydd
a Mrs Bethan Hartnup, Is-drysorydd.
Aelodau'r Pwyllgor - Mrs Marian Beech Hughes, Mrs Mair Davies, Mrs Mair Jones a Mrs Janet Roberts.

Llongyfarchodd Marian yr aelodau hynny oedd wedi bod yn llwyddiannus yn yr Ŵyl Fai – sef Mrs Shân Hayward, Mrs Beryl Hughes (Pantyperan) a Mrs Brenda Jones.

Yn dilyn y cyfarfod blynyddol croesawon Mr Iestyn Hughes i'r cyfarfod. Rhoddodd Iestyn gipolwg byr i'r Aelodau o'i waith drwy lens camera a oedd yn cwmpasu cyfnod o un flwyddyn ac yn cynnwys dathliadau'r Flwyddyn Newydd gyda'r Fari Lwyd, eira'r gaeaf, stormydd Aberystwyth ac ati. Cawsom awr drylwyr bleserus yn ei gwmni. Rhodd Mr a Mrs Iestyn Hughes lun o Bromenâd Aberystwyth a oedd yn rhan o'r raffl ar ddiwedd y noson.
I gloi cafwyd paned a lluniaeth a baratowyd gan y Pwyllgor o dan ofal Mrs Gaynor Jones. Enillwyr y raffl oedd - Mrs Shân Hayward (raffl arferol) a Mrs Beryl Hughes (Pantyperan) (yr ail raffl).

## Ar 'Ffermio'

Gwelwyd eitem ddifyr ar Ffermio yn ddiweddar – bu Manod Williams, 29 Tregerddan, yn sôn am ei ymchwil. Mae'n gwneud ei ddoethuriaeth ar wartheg godro a chlywsom fel mae wedi dyfeisio teclyn GPS i fonitro ymddygiad gwartheg godro tra maent yn pori.

## Noson Goffi Noddfa

Cynhelir y Noson Goffi flynyddol yn y Festri nos Wener y 4ydd o Orffennaf am 7.00 o'r gloch. Croeso mawr i bawb.

## Palas Buckingham

Llongyfarchiadau cywir iawn i Mr a Mrs Iwan Davies, Cnwc y Deintur, ar dderbyn gwahoddiad i de arbennig gyda'r Frenhines ym Mhalas Buckingham. Daeth yr anrhydedd i Iwan a Jean fel cydnabyddiaeth am y gwaith gwirfoddol diflino mae'r ddau wedi ei gyflawni yn y pentref ac yn ehangach ar hyd y blynyddoedd. Dydd Mawrth Mehefin y 10fed oedd y diwrnod mawr a gobeithir bod y ddau wedi mwynhau'r profiad.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Mair Davies, Irlwyn, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth wrth i Ron golli'r frwydyr yn erbyn y gelyn mawr ar y 29ain o Fai yn 69 oed. Yr oedd Ron yn gymeriad cywir iawn, yn grefftwr medrus ac yn fawr iawn ei brach yng ngolwg llawer iawn ohonom ac fe adlewyrchwyd hyn yn y dyrfa luosog iawn a ddaeth ynghyd i'w wasanaeth angladd a gynhaliwyd yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Mawrth, Mehefin y 3ydd. Bydd bwlch mawr iawn ar ei ôl ym mywydau Mair, Paul a Jayne, Mark, Sion a Tomos. Cofion annwyl iawn atoch.

## Dathlu

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mrs Elizabeth Davies (Beti), 8 Maes Ceiro, a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 80 ar y 14eg o fis Gorffennaf.

## Mrs Ogwen Cameron

Pan fu farw Mrs Mary Rachel Clydogwen Cameron (Ogwen), 30 Bryncastell, yn dawel ar y 18fed o Ebrill daeth rhawd ddaearol un o`r anwylaf o drigolion y ddaear i'w therfyn. Un o ardal Llanfair Clydogau a Chellan oedd Ogwen a`i henw llawn yn dystiolaeth bendant i hynny. Yn ferch i'r diweddar Benjamin ac Elisabeth Jones treuliodd ei dyddiau cynnar yn y Caban a Pant y Manal yn Llanfair Clydogau cyn symud yn ddiweddarach i Rhyd-y-Deri yng Nghellan. Wedi dod i oed a phriodi Sidney Cameron o



**Llongyfarchiadau i Hannah Miles, Crefftau Pennau, gafodd ei hail gap yn ddiweddar. Cafodd gap dan 16 y llynedd ac eleni cafodd gap dan 17 oed . Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol! Yma fe'i gwelir gyda Chris Coleman, rheolwr tim Pêl-droed Cymru a Jayne Ludlow, hyfforddwraig Tîm Merched dan 16 Cymru.**



**Ann Thomas Jones o BEACON yn IBERS yn siarad efo Dei Tomos ar gyfer 'Byd Amaeth' o'r digwyddiad Tir Glas yn Sir Faesyfed yn ddiweddar.**

Dregaron ymsefydlodd yn Aberystwyth cyn symud i Fryncastell ar ddechrau`r 70au. Bu blynyddoedd Bryncastell yn rhai dedwydd iawn iddynt gyda Llŷr yn tyfu i fyny yno a phan gollwyd Sidney mor ddisymwyth ym 1993 yr oedd Llŷr yn gefn mawr iddi. Gwraig dawel, fonheddig, garedig a chymwynasgar oedd Ogwen yng ngolwg pawb a gafodd y fraint o`i hadnabod. Yr oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Noddfa a`i ffydd yn golygu cymaint iddi ac yn gymaint o gynhaliaeth iddi bob amser. Er yn eiddil o gorff yr oedd yna bendantrwydd a gwytnwch rhyfeddol yn perthyn iddi a hynny yn cael ei amlygu yn ei natur annibynnol ac yn y ffaith iddi hedfan i Awstralia at Llŷr a`r teulu ddwywaith yn y cyfnod diweddar. Y mae bwlch mawr ar ei hôl yn rhengoedd y teulu, yn Noddfa ac ymhlith pawb ohonom a gafodd y fraint o`i hadnabod a bod yn rhan o`i bywyd. Yr ydym hefyd yn sylweddoli ei bod wedi cyfoethogi ein profiad o fyw ac wrth i ni ei chofio gyda gwerthfawrogiad y mae cysur mawr yn hynny. **RHL.**

### Diolch

Dymuna Llŷr a'r teulu a Jean ac Iwan ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli un annwyl iawn. Diolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd Ogwen gan ffrindiau da dros y blynyddoedd a diolch i'w Gweinidog, y Parchg Richard Lewis.

Diolch i Dinah Henley am flodau i'r capel ac i bawb a gyfrannodd tuag at RNIB. Trosglwyddwyd £720 i RNIB er cof am Ogwen.

Dymuna Valerie, Nicola a'r teulu (Manteg) ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn, a'r ymweliadau â hwy yn eu profedigaeth. Hefyd carent ddiolch yn ddiffuant am y gofal tyner a dderbyniodd Gwynfor gan y gofal cartref (Mid Wales) a staff Meddygfa Ystwyth.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Linda a Richard Jones, Bronwydd Villa a Sylvia Smith, Y Ddôl, ar golli eu tad, sef Arthur o Benparcau, tad-cu i Gary a Pippa, Gwenno a Meirion, a hen dad-cu annwyl.

### Brysia Wella

Dymuniadau gorau i John y Post ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Brysia wella John!




## IBERS yn creu budd economaidd o £365m

Fe gynhyrchodd pob £1 o'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth £12.18 o fudd i economi'r Deyrnas Gyfunol yn 2012/13.

Mae IBERS yn cael ai ariannu yn strategol gan y BBSRC (Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Biotechnoleg a Biolegol) ac fe gynhyrchodd IBERS fuddiannau economaidd o £365 miliwn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) ar gyfer economi'r DG gan gefnogi bron 2,450 o swyddi.

Dyna gasgliad adroddiad annibynnol yn dadansoddi effaith y ganolfan ymchwil a dysgu a gydnabyddir yn rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth gan un o'r prif ymgynghorwyr economaidd annibynnol, BIGGAR Economics.Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut y mae gwaith ymchwil sylfaenol a chymhwysol eisoes wedi cael effaith a sut y bydd yn parhau i wneud hynny. Mae copi o'r adroddiad ar gael yma http://bit.ly/1kCrBTp.

Mae gweithgaredd ymchwil IBERS yn cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch a ddatblygir trwy ymchwil, ac mae masnacheiddio'r cynnyrch yma yn creu cyfoeth ac yn cefnogi swyddi ledled y DG.

Mae canlyniadau'r ymchwil hefyd yn sail i weithgareddau dysgu yn IBERS, sy'n cyfrannu at gynhyrchiant graddedigion IBERS a'r cwmnïoedd sy'n eu cyflogi. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgaredd yma yn helpu i annog gwelliannau hirdymor i gynhyrchiant amaethyddiaeth y DG ac amrywiaeth o fuddiannau ehangach, na ellir eu mesur o fewn i'r DG a thramor.

Dyma'r uchafbwyntiau:

- Cynhyrchodd gweithgaredd masnacheiddio fwy na £14 million GYC ar gyfer economi'r DG, gan gefnogi bron 250 o swyddi. Mae gan IBERS gysylltiadau cryf ers tro ag amrywiaeth o bartneriaid mewn diwydiant sy'n ei galluogi i chwarae rhan sylfaenol wrth gefnogi cynhyrchiant sector bwyd-amaeth y DG.
- Mae'r mathau arbenigol o blanhigion a ddatblygwyd gan wyddonwyr IBERS yn darparu 14% o'r holl fewnbwn o ran maeth sydd ei angen ar y 32.6 miliwn o wartheg a defaid a fagir yn y DG bob blwyddyn, ac yn cynhyrchu £6.3 miliwn trwy werthu hadau.
- Bob blwyddyn bydd graddedigion IBERS yn mynd â'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn ystod eu hastudiaethau i'r gweithle, gan helpu i wella cynhyrchiant diwydiant y DG. Gellir mesur y buddiant cynhyrchiant hwn gan yr incwm ychwanegol y mae graddedigion yn ei ennill oherwydd bod ganddynt radd. Amcangyfrifir bod y gwelliant cynhyrchiant hwn wedi cyfrannu mwy na £23 miliwn GYC at economi'r DG yn 2012/13.
- Mae 65% o'r holl fathau o geirch a ddefnyddir yn y DG bob blwyddyn wedi eu datblygu gan IBERS. Amcangyfrifir bod cyfraniad IBERS i farchnad geirch y DG wedi cynhyrchu mwy na £19 miliwn GYC ar gyfer economi'r DG yn 2012/13, gan gefnogi mwy nag 800 o swyddi.

Un o elfennau allweddol y rhaglen hon yw datblygiad £35m Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yng Ngogerddan, lle mae llawer o'r ymchwil a wneir gan IBERS yn digwydd. Gyda chefnogaeth gan y BBSRC, bydd y cyfleusterau newydd ar gyfer cwmnïau masnachol ac ymchwilwyr yn chwarae rôl arwyddocaol mewn datblygu cynhyrchion newydd, yn seiliedig ar ddulliau modern o fridio planhigion, sy'n hanfodol wrth i ni fynd i'r afael â materion allweddol bwyd, dŵr ac ynni mewn byd sydd wastad yn newid.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 29 Mai, a hon oedd noson y Cyfarfod Blynyddol gyda rhyddid i drethdalwyr yn yr ardal fod yn bresennol. Yn ôl yr arfer hysbyswyd y byddai'r cyfarfod yn cychwyn am 7, ond ni ddaeth neb o'r cyhoedd i'r cyfarfod, yn wir, methwyd a chychwyn oherwydd nad oedd ond pedwar cynghorydd yn bresennol! Sut bynnag roedd digon yn bresennol erbyn 7.30 ac aethpwyd ymlaen â'r gwaith o dan lywyddiaeth y Cyng Dewi James.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, y Cyng James, ar waith y flwyddyn a diolchwyd iddo yntau a'r clerc, y Parchg Richard Lewis, am eu gwaith trylwyr yn ystod y flwyddyn. Yn ei adroddiad cyfeiriodd at y ffaith fod nifer o geisiadau cynllunio wedi dod i law a mawr obeithir ein bod wedi delio â phob un yn deg. Ac wrth sôn am gynllunio dywedodd fo peth gwaith wedi ei wneud ar y system garthffosiaeth yn yr ardal yn ddiweddar a mawr obeithir y bydd hyn yn arwain at welliannau yn gyffredinol.

Yn ôl yr arfer, ail etholwyd y Cadeirydd a'r is-gadeirydd (y Cyng Siân Jones) am dymor arall. Hefyd ail etholwyd yr un rhai yn gynrychiolwyr ar yr amrywiol bwyllgorau. Derbyniwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn 2013/14, oedd yn dangos fod £3,048 yn y cyfri cadw, a £22,106 yn y cyfri cyfredol.

Aethpwyd ymlaen i drafod y materion misol. Mae'r clerc wedi trefnu cyfarfod gyda thrigolion Bryncastell i drafod pa offer y maent am gael ar gyfer yr ardal chwarae, yn ogystal â gwneud ymholiadau am grantiau a benthyciadau (Public Works Loan Board). Cadarnhawyd bod Ysgol Rhydypennau i dderbyn £400 at y cynllun tirlunio sy'n cynnwys gosod rampiau ar gyfer cadeiriau olwyn.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sirol, Paul Hinge, yn ei absenoldeb. Dywedodd ei fod yn parhau i geisio perswadio adrannau y ffyrdd am arwyddion pwrpasol ar ffyrdd Clarach/ Llangorwen. Mynegodd ofid am y teithwyr oedd wedi gwersyllu ar dir y cae chwarae yn Rhydypennau. Roedd yn orfodol i bwyllgor y cae chwarae fel tenantiaid i'r Cyngor Sir i gymryd y camau cyfreithiol i'w symud ymlaen. Anogwyd perchnogion tir yn yr ardal i sicrhau bod eu gatiau dan glo cyn bydd y gwersyllwyr yn symud ymlaen. Yn y cyfarfod nesaf bydd y Cynghorydd Hinge yn trafod materion ynglŷn â gorsaf arfaethedig y rheilffordd yn Bow Street.

Ceisiadau cynllunio
1. Codi dau annedd fforddiadwy ar dir yn Nhregerddan. Penderfynwyd cefnogi gwrthwynebiadau y trigolion lleol. 2. Newidiadau ac estyniadau ym Mryngwyn Canol (Adeilad Rhestredig), dim sylwadau. 3. Cadw adeilad fel llety'r rheolwr a siop ym Mharc Gwyliau Bryncarnedd, dim sylwadau.

O dan eitem unrhyw fater arall, cwynwyd fod llwybr cyhoeddus rhwng dau floc o dai yn Nhregerddan â sietyn angen ei thorri, a darn trichornel o lawnt ar ystâd Maes Ceiro heb ei dorri. Gwneir ymholiadau ar fyrder. Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00

**Mehefin**
22 Edwyn Hughes
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Ysgolion Sul – Morlan 11.15; Garn 2.00)

**Gorffennaf**
6 Rhidian Griffiths
13 Oedfa'r ofalaeth
20 Bugail
27 Eric Greene

**Awst**
3
10 Lewis Wyn Daniel
17
24 Lyndon Lloyd
31

**Medi**
7 Adrian Williams
14
21 Bugail
28 John Tudno Williams

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar golli chwaer – Mrs Elizabeth George, Penwern, New Cross.

### Croeso

Croeso i Tesni Efa – merch fach i Heledd a Prys, chwaer i Cennydd ac Einion, wyres i Elwyna Davies, Tyncwm.

Gwersi Gitâr
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

ytincer@googlemail.com

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092


Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
DÊL CINIO
2 GWRS - £9.95
3 CHWRS - £13.95
BETH AMDANI . . .
MERCHER - SADWRN
12 TAN 3 Y PNAWN
01970 832 555
croeso@gwestyllewdu.com
* yn amodol ar argaeledd

# Ysgol Penweddig

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i'r chwe disgybl sydd wedi eu derbyn i Fand Pres Cenedlaethol Cymru sef Nils Marggraf-Turley, Dafydd Rees, Gwern Penri, Rose Gillison, David Michael ac Ifan Llywelyn. Mae Nils (ar y trwmped) ac Efa Gregory (ar yr obo) wedi eu dewis i fod yn rhan o Gerddorfa Plant Cenedlaethol Prydain Fawr.

Daeth Ensemble Iau Penweddig yn 1af yng nghystadleuaeth 'ensemble 14 oed ac is' ym Mhencampwriaethau Gorllewin Cymru, Porth Tywyn. Aelodau'r ensemble oedd Nils Marggraf-Turley, Dafydd Thomas, Sophie Neale, Rose Gillison, Rhodri Davies, Ifan Llywelyn, Dafydd Llywelyn, Tom Constantine, Tom Williams a Daniel Rees.



Christopher Gillison, Iestyn Morgan-Jones, Siôn Jones, Liam Davies a Rhydian Davies



Sioned Newman, Cara Evans, Ffion Morgan, Ffion Edwards, Anwen Morris a Beca Davies

### Bl. 11 a 13 yn gadael

Dymunwn bob hwyl i'r disgyblion a adawodd yr ysgol i ddechrau ar eu cyfnodau astudio cyn sefyll eu harholiadau allanol. Gellir gweld mwy o luniau ar ein gwefan.



Ffion Griffiths, Elan Elidyr, Beatrice Edwards, Eilir Huws a Marged James


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

y tincer

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

THEATR IEUENCTID YR URDD yn cyflwyno
CYSGU'N BRYSUR
Drama gerdd newydd gan Bethan Marlow yn seiliedig ar ganeuon y band Bromas
urdd.org
PIER PRESSURE, ABERYSTWYTH
8/9/10 Gorffennaf 2014 am 7:30yh
TOCYNNAU £12:
0845 2571 639 neu urdd.org/eisteddfod
(Gostyngiad i grwpiau o ysgolion)
CYFARWYDDWR Jeremy Turner
COREOGRAFFYDD Eddie Ladd
CYFARWYDDWR CERDD Rhys Taylor
CERDDORIAETH Bromas




Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

## DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Y Môr (16 Mehefin-1 Awst). Arddangosfa arbennig ar thema Y Môr. Yn cynnwys gwaith celf gan Marian Delyth, Anthony Evans, Ruth Jên, Wynne Melville Jones, Ann Lewis, Gareth Owen, John Rowlands a cherddi (nifer ohonynt mewn llawysgrifen ac wedi'u fframio) gan amryw o feirdd.
- Ar Dramp yn Dre: taith gerdded Morlan (6.00, 25 Mehefin). Eleni, taith o amgylch yr Hen Goleg gydag Elgan Philip Davies.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/




Hen loriau yn cael eu harddangos yn ystod Sioe Aberystwyth, ar gaeau Gelli Angharad, dydd Sadwrn 14 Mehefin.

**y tincer** ytincer@googlemail.com

# Ras yr IAITH

## Rhedeg dros yr iaith! 2014

**Ras hwyl gyfnewid dros yr iaith Gymraeg ar ddydd Gwener 20 Mehefin 2014.**

Bydd clybiau, cymdeithasau, busnesau ac ysgolion yn talu £50 i noddi 1 cilomedr a chario baton y Ras. Dewch i redeg, cefnogi a dathlu!

**Dydd Gwener 20/06/14 rhedeg drwy:**

8.15am - Machynlleth
10.00am - Aberystwyth
1.00pm - Tregaron
2.00pm - Llanbedr PS
3.00pm - Aberaeron
4.00pm - Ceinewydd
5.00pm - Llandysul
6.00pm - CN Emlyn
7.00pm - Aberteifi

rasyriaith.org @rasyriaith post@rasyriaith.org

Gyda chefngoaeth: Mentrau Iaith Maldwyn, Gorllewin Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Cymraeg i Oedolion, Cyngor Llyfrau Cymru, yr Urdd, Merched y Wawr

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Cered

2014

## Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

10fed o Hydref
Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30
Neuadd Felin-fach
Mynediad £1
Arweinydd y noson Geraint Lloyd
Beirniaid Dylan Iorwerth ac Elaine Davies

Y TINCER
Y Barcud
y Garthen
YrAngor
Llais Aeron
CLONC
Y DOLEN
Y Gambo Papur Pawb

### O'r Llwyfan

Dweud Stori Ddoniol

Datganiad gan ddefnyddio offer o'r ardd

Sgets, gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grŵp, neu ddeialog, i bara dim mwy na phum munud. Testun - camddealltwriaeth.

Llefaru - darllen darn heb ei atalnodi

Côr Garglo
Rhoddir y dôn ar y noson

### Gwaith Cartref

Slogan - i ddenu pobl i Geredigion.

Ar gyfer dysgwyr:
Ysgrifennu am raglen deledu - dim mwy na 300 o eiriau.

Ar gyfer plant oed cynradd:
Peintio cymeriad hanesyddol.

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed:
Araith mynegi barn - dim mwy na 300 o eiriau.

Llunio brawddeg,
gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau M-W-Y-N-H-AD

Gorffen limrig - "Mae Geraint yn hoff iawn o sgwrsio"

Creu poster ar gyfer Cwrdd diolchgarwch.

Cefnogwch eich papur bro!

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi) erbyn y 3ydd Hydref i:
CLONC, Tycerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET.
Mwy o fanylion oddi wrth Dylan Lewis, Papur Bro Clonc, 07794741011, cadeirydd@clonc.co.uk

# Y BORTH



### Gweld budd arian Ewrop

Daeth Jill Evans, Aelod Seneddol Ewropeaidd Plaid Cymru ac a ailetholwyd fel ASE dros Blaid Cymru ym Mai 2014 i'r Borth yng nghwmni Mike Parker, ymgeisydd San Steffan y Blaid yng Ngheredigion, i weld y buddsoddiadau diweddar sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal.

Cafwyd y cyfle i brofi llwybr yr arfordir, sydd wedi cael ei ariannu'n rhannol gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol. O'r llwybr uwchben y Borth wrth gwrs mae modd gweld yr amddiffynfeydd newydd sydd yn y bae. Mae'r cynllun, sydd hefyd wedi ei ariannu'n rhannol gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, wedi bod yn gymaint o llwyddiant yn ystod y stormydd ddechrau'r flwyddyn. Heb os, mae'r cyfraniadau hyn o Ewrop wedi bod yn hanfodol bwysig i gryfhau'r economi leol ac i sicrhau cymunedau'r ardal at y dyfodol.

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i Grady Hassan am ddod yn gyntaf ar yr Unawd Pres Bl 10 a dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Bu'n ddeufis prysur. Cawsom daith wanwyn hyfryd ar hyd yr arfordir a throsodd am ginio i Ganolfan Crefftau Corris ac yna trwy'r wlad gan orffen ym Mein Meirion ar de prynhawn. Diolch i John o Gwmni Bysus RJ am daith wych – roedd hyd yn oed y tywydd yn garedig wrthym!

Cawsom sgwrs ar Ddewiniaeth yng Ngheredigion gan Helen Palmer, hanes Amgueddfa Ceredigion yn hen sinema'r Coliseum gyda Stuart Evans (fe ddaru ni fwynhau yn arbennig yr hen recordiau 78), sgwrs ar archaeoleg ardal y Borth gyda Sarah a Kimberley ac yn olaf er nad y lleiaf, hanes dillad isaf merched gan Mary Turner o Amgueddfeydd Ceredigion. Wel dyna amrywiaeth o wybodaeth gawsom ni. Ein diolch iddynt i gyd am eu cyflwyniadau diddorol. Diolch i Joyce, ar ei phen blwydd yn 92 ac i Roy, ar ei 80ain , am y cacennau.

Yn y Ffair Elusennau yn Neuadd y Borth ar Fai 31ain fe wnaethom £140 ac mae'n diolch i'n haelodau i gyd ddaeth i gynorthwyo ac i rai yn y pentref ddaeth i gefnogi y Ffair a gwario eu harian. Roedd yna stondinau o Glwb Rhwyfo y Borth, Urdd Gwarchod Cathod, Cylch Meithrin y Borth, Ysgol Craig yr Wylfa, Sgowtiaid y Borth, Cymdeithas Henoed, Eglwys St. Matthew, Ymddiriedolaeth Brooke i Geffylau, RNLI a'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Roedd yn achlysur hyfryd - diolch unwaith eto i bawb am gymryd rhan a'u cefnogaeth. Gobeithio i bob stondin wneud cystal â Chymdeithas yr Henoed.

Dymunwn wellhad buan i Gladys Jones, sydd yn yr ysbyty a Dorothy Horwood sydd yn wael gartref. Mae'r ddwy yn aelodau hirdymor o'n grwp. Gobeithiwn y bydd y ddwy yn teimlo yn well yn fuan. Dymuniadau gorau hefyd i Kathleen Jones a Sadie Davies sydd yn aelodau 'Cartref'.

Rydym wedi pleidleisio dros Henffordd ar gyfer ein taith haf. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gyfer dillad a fflot ar gyfer Carnifal y Borth dydd Gwener Awst 1af. Gobeithio y bydd pawb yna ar gyfer y Carnifal gorau yng Nghymru – neu efallai y byd!

Am fwy o wybodaeth am Gymdeithas Henoed y Borth ffoniwch Betty ar 871135 neu Joy ar 871649. Rydym yn cyfarfod pob pythefnos yn Neuadd y Borth ar ddyddiau Iau am 2.00. Mae croeso cynnes i aelodau hŷn y Borth a'r pentrefi cyfagos.

### Eglwys St. Matthew y Borth

Fe gymerodd merched o'r ysgol Sul ran yn Race for Life eto eleni. Roeddynt yn edrych yn wych yn eu pinc ac roedd yn achlysur hapus iawn. Da iawn ferched. Diolchwn i'r bechgyn a rhieni yr ysgol Sul am eu cefnogaeth. Wyddom ni ddim y cyfanswm a gasglwyd eleni ond gobeithiwn guro cyfanswm y llynedd o £1,006. Cewch wybod yn rhifyn nesaf y Tincer. Gwelir ni i gyd yn y llun cyn dechrau y ras. Cawsom bicnic a hwyl yn y parc, nôl yn Neuadd y Borth ar ôl y ras.

Bu plant yr ysgol Sul hefyd yn cynorthwyo y Canon Stuart Bell yn y Gwasanaeth Teuluol yn St Matthew ar Fai 25ain – gweler y llun.

Mae'r ysgol Sul yn mynd ar eu trip blynyddol – byddwn yn mynd i Folly Farm – eto! Dyna y dewis poblogaidd. Cynhelir yr ysgol Sul yn y den y tu ol i'r eglwys yn ystod pob gwasanaeth boreol 11.15. Cysylltwch â Joy ar 871649 am fwy o fanylion.

Bore Sul Gorffennaf 13eg am 11.15 fydd ein gwasanaeth Sul y Môr lle byddwn yn anrhydeddu ein morwyr lleol a chenedlaethol RNLI, morwyr Prydain a phawb sydd yn gweithio ar y môr. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Gŵyl Celf a Chrefft yn yr eglwys o ddydd Gwener 25ain Gorffennaf hyd dydd Sul





27ain. Bydd yna arddangosfa o waith celf arlunwyr lleol ar ffenestri yr eglwys ac ar fyrddau arddangos. Bydd yr eglwys ar agor gydol y dydd – byddai yn dda pe gallech ddod draw ar ymweliad. Bydd llawer o bethau ar werth a hefyd fanylion cyswllt yr holl arlunwyr. Bydd lluniaeth ar gael . Disgwylir y bydd yr eglwys ar agor o 10.30 y bore hyd 4.00. Am fwy o fanlion am yr Ŵyl cysylltwch â Jo ar 871411 neu Susan ar 871355.

### Amgueddfa Gorsaf y Borth

Mae gwirfoddolwyr yn gobeithio am ailadrodd llwyddiant Gala 150 y llynedd gyda Gala'r Haf yg Ngorffennaf. Bydd digwyddiadau yn cynnwys Stondinau crefft a rheilffordd, model Hinterland, siwrne mewn tren stem, bysgwyr, offer mawr stem a raffl.

Yn ôl y Trefnydd, "Ni fydd y digwyddiad yn un mor fawr a'r llynedd ond rydym yn gobeithio y bydd pobl yn fodlon dod a mwynhau eu hunain. Mae gennym ddigwyddiadau ddylai fod yn addas i'r teulu i gyd – nid dim ond oedolion a rhai sydd yn frwdfrydig am reilffyrdd."

Bydd Diwrnod Gala Amgueddfa y Borth ymlaen dydd Sadwrn 5 Gorffennaf rhwng 12 a 5p.

## Y RHYFEL BYD CYNTAF PROSIECT COFIO a MYFYRIO

(o dan nawdd capeli'r fro)

**Y bwriad**: Creu arddangosfa (ar gyfer mis Hydref) o bethau sy'n perthyn i deuluoedd a chymdogaethau lleol.
**Yr angen**: Llythyron, lluniau, cardiau post, medalau, dillad neu – yn wir – unrhyw beth yn eich meddiant sydd â pherthynas leol â'r Rhyfel Byd 1af
**Beth i wneud**: Dewch â beth bynnag sydd gennych i unrhyw un o'r canolfannau isod ar y dyddiad a'r amser priodol.
**Beth fydd yn digwydd**: Byddwn yn sganio neu yn gwneud copi yn y fan a'r lle.
Bydd modd i chi wedyn fynd â'r llun neu'r llythyr gwreiddiol nôl gartre yn ddiogel gyda chi.

**DIWRNODAU CYWAIN**
8 Gorffennaf: Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch (5 - 7 o'r gloch)
9 Gorffennaf: Neuadd Rhydypennau (2 – 4 o'r gloch)
10 Gorffennaf: Neuadd Pen-llwyn (2 – 4 o'r gloch)
10 Gorffennaf: Neuadd y Paith, Capel Seion (5 – 7 o'r gloch)
11 Gorffennaf: Neuadd Goffa Tal-y-bont (2 – 4 o'r gloch)

**BYDD PANED A CHROESO MAWR YM MHOB CANOLFAN**
Manylion pellach gan John Leeding 01970 832672

# Colofn Mrs Jones

Flynyddoedd yn ôl, ag yntau yn cychwyn codi arian at achosion da, gofynnodd Jimmy Saville i gyfaill hael oedd ganddo noddi ysbyty Stoke Mandeville trwy brynu teledu i un o'r wardiau. Er mawr syndod i Saville, gwrthod wnaeth y cyfaill gan ychwanegu na ddylai Saville wneud ychwaith. Mae'n debyg iddo ddweud y byddai prynu cysur heddiw yn arwain at brynu offer pan welai'r llywodraeth ein bod yn ddigon o mygs i wneud hynny a thalu treth hefyd.

Ac, wrth gwrs, mi ryden ninnau wedi gweld hyn yn digwydd, mae hi yn rwtin bellach gweld cyfeillion ysbytai yn prynu pethau cwbl hanfodol. Mae yr un peth yn wir am addysg, hefyd, mi dybiaf, er talu treth, mae'r llywodraeth yn disgwyl inni dalu ddwywaith am wasanaethau. Ac am lai o wasanaethau, hefyd, yn aml, mae'r bygythiadau cyson i Fron-glais yn enghraifft o hynny ac yn codi cwestiwn arall. Hyd y gwelaf, barn y Cynulliad yw fod Llwyn Helyg, Aberteifi, Caerfyrddin a Bron-glais yn ddigon agos fel nad oes angen i bob un o'r ysbytai gynnig gwasanaeth llawn am ein bod yn ddigon agos at ein gilydd i deithio....tybed nad yw hi yn bryd iddynt gofio fod ysbytai cymoedd y de hyd yn oed yn nes at ei gilydd a gwell cyfarpar trafnidiaeth rhyngddynt?

Ond mater o arian yw hyn, mae'r llywodraeth bellach ar ôl ein hamser ni hefyd! Gair mawr y dyddiau hyn yw gwirfoddoli, sef rhoi o'ch hamser eich hun i gynorthwyo eraill. Mi rydw i eisoes yn

gwneud yn yr eglwys ac yn gweld y gwaith yn her bleserus ac yn fraint ond holl bwrpas gwirfoddoli yw gwneud gwaith am ddim ac nid oes dim o'i le ar hynny per se. Fe allwch chi wirfoddoli mewn sawl lle, yn wir, gallwch hyd yn oed ymuno â staff y Llyfrgell. Ond eto, fe ddylai sefyllfa lle mae staff heb hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio ein dychryn ni ar dro. Gwirfoddolwr mewn ysgol er enghraifft. A ninnau yn gwybod pa mor aneffeithiol yw proses y CRB, allwn ni fforddio rhoi rhywun oddi ar y stryd mewn ysgol dim ond am ei fod yn dymuno gwirfoddoli? A meddyliwch faint o lanast y medrai gwirfoddolwr anwybodus ei wneud mewn ward ysbyty. Ond pan wêl y Llywodraeth ein bod yn fodlon gwneud talu treth a chodi arian a gweithio am ddim, yna fe ofnaf y gwaethaf.

Felly, peidiwch a gwirfoddoli i ddim byd sydd ynglŷn â'r Llywodraeth fyddai fy nghyngor i chi, gadewch lonydd i droliau nwyddau'r ysbytai ac awr stori'r plant ac os gwnewch chi, peidiwch a meio i os mai chi fydd pennaeth y sefydliad ac yn ei redeg ar elusen â gwirfoddolwyr eraill.

## Côr o India yn ymweld

Bydd côr o Mizoram, Gogledd ddwyrain India, yn canu mewn oedfa gyhoeddus yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ar nos Sul Gorffennaf y 6ed am 6 o'r gloch. Bydd yr oedfa dan arweiniad Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. Bu Eilir Owen Griffiths allan yn gweithio gyda'r côr a bydd eu cyfraniad hwy i'r oedfa yn un arbennig. Maent hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Sefydlwyd Eglwys Bresbyteraidd Mizoram ym 1897 gan y Parchg David Evan Jones o Landderfel.


**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH
**GARDDIO MYNACH**
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

# Ysgol Penrhyn-coch

### Llyfrgell Genedlaethol

Fel rhan o waith pontio y tymor, bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Tra yno, cafwyd cyfle i gymryd cwis am gynnwys arddangosfa. Yna, cafwyd cyfle i weld nifer o arteffactau amrywiol megis hen bapurau newydd, hen luniau a hen fapiau. Roedd y cyfan o'r arteffactau yn olrhain hanes tref Aberystwyth. Diolch i Rhodri am y gwaith paratoi ac am ddod a'r cyfan yn fyw i'r disgyblion.

### Ffagl Gemau'r Gymanwlad

Llongyfarchiadau i Llion a Charlotte am gael y fraint o fod yn rhan o orymdaith Ffagl Gemau'r Gymanwlad yn ddiweddar. Daeth y Ffagl i Aberystwyth yn ystod y gwyliau a gwahoddwyd Llion a Charlotte fel Llysgenhadon Efydd Chwaraeon i fod yn rhan o'r orymdaith. Fe'u gwelwyd yn cerdded ar hyd y prom yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

### Teledu Telesgop

Yn flynyddol mae'r ysgol wedi cystadlu yn adran plant Sioe Aberystwyth. Ers o leiaf chwe mlynedd, mae'r ysgol wedi ennill y gwpan am y marciau uchaf yn yr adran hon. Eleni, dmae Cwmni Teledu Telesgop yn darlledu rhaglen ar Sioe Aberystwyth ac o ganlyniad, bu criw wrthi yn ffilmio rhai o'n cystadleuwyr wrth iddynt baratoi. Pob lwc i'r disgyblion a phwy a ŵyr, efallai y daw'r gwpan yn ôl unwaith yn rhagor. Darlledir y rhaglen nos Sadwrn yr 21ain o Fehefin ar S4C.

### Ffair Haf

Cynhelir Ffair haf yr ysgol ddydd Sadwrn y 5ed o Orffennaf. Bydd y Ffair yn cychwyn am 12 p.m. ac yn gorffen tua 3 p.m Bydd stondinau amrywiol gennym felly dewch i fwynhau.

### Taith i Oakwood

Ar ddydd Mercher Mehefin 4ydd aethom i Oakwood. Yn gyntaf aethom ar Tree Tops a dywedodd y dyn wrthym fod trydan yn tynnu'r cerbyd lan a disgyrchiant yn dod ag e lawr. Ni aeth y cerbyd yn gyflym iawn. Y reid nesaf oedd y Pirate Ship. Doedd dim rhes aros, aethom syth arno. Ar y cwch teimlais fy stumog yn fy ngwddw. Olwyn fawr oedd yn cyflymu ac arafu'r cwch. Mwynheais fy nhocyn cinio wedyn aethom ar Megafobia. Roedd chain mawr yn tynnu chi lan yn uchel a disgyrchiant yn hela chi lawr. Teimlais fel bod fy mhen yn mynd i chwythu lan.
Doeddwn i ddim yn disgwyl i'r reid Spooky 3D fod yn ofnus iawn ond sgrechid Celyn a fi pob tro roedd rhywbeth yn neidio mas arnom ni.
Llion Edwards

### Mods a Rocyrs a'r 60au

Thema ni oedd y 60au. Roedden ni'n gwneud y 60au tymor olaf cyn hanner tymor. Cawsom ni parti'r 60au ar ddiwrnod olaf o ysgol.

Pan gawsom ni'r parti 60au roedd yna llawer o waith paratoi. Roedd rhai pobl yn gwneud y Pizza a brechdanau. Tra bod rhai pobl yn gwneud y bwyd, yn ein dosbarth ni, roedd pobl yn cael colur a thrin gwallt. Roedd Mrs Martin a mam Olivia Gilies yn helpu gwneud y gwallt.

Yn y parti roedd yna "pin the tail on the donkey". Dim ond un o'r gêmau roeddwn ni'n chwarae. Hefyd dysgom ni amdano ffasiwn yn y 60au, bwyd, cerddoriaeth, ras y gofod, gwyliau a Martin Luther King. Petawn ni'n gwneud y thema yma eto hoffwn gael mwy o gêmau i chwarae.
**Bethan Owen-Doram**



Mae'n amlwg fod rhai yn falch o gael gorffen ar "Tree Tops!"




Disgyblion dewr yr ysgol ar y reid "Speed!"



Llion a Charlotte yn dal Ffagl Gemau'r Gymanwlad yn dynn iawn!

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

MYNACH HANDYMAN
Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio
Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816
mynachhandyman@yahoo.com

y tincer



Teledu Telesgop yn cyfweld Annie-May a Mari Gibson

# Ysgol Craig yr Wylfa

Ar nos Wener y 9fed o Fai, roeddwn i'n teimlo'n berson breintiedig iawn. Roeddwn i ynghanol grŵp o staff yn cynrychioli ysgolion gwahanol wledydd o Ewrop. I'r dde ohonof yr oedd athrawon o Wlad Groeg; i'r chwith athro o Ffrainc; ar ben pellaf y bwrdd, staff ysgol o'r Eidal; y tu ôl i mi ar fwrdd gwahanol yr oedd staff o Dwrci, ysgol arall yn Ffrainc, ysgol o'r Ffindir, ysgol o Iwerddon a staff Ysgol Comins-coch a Chraig yr Wylfa. Gyferbyn â mi, cynrychiolwyr o Ysgol Planas i Lasals o ddinas Badalona yng Nghatalunya (sylwch,nid Sbaen).

Roeddem ni i gyd yno ar wahoddiad y Catalanwyr fel rhan o brosiect Comenius, rhaglen Ewropeaidd sy'n annog creu cysylltiadau rhwng ysgolion ar draws Gorllewin Ewrop. Yn wir, y cyfarfod yma oedd penllanw bron iawn i ddwy flynedd o gydweithio ar y thema "Gofalu a Rhannu". Roedd datblygu ardal allanol yr ysgolion, gan gynnwys creu gwell llefydd chwarae a datblygu gerddi gwahanol yn ganolog i'r gwaith. Roedd datblygu medrau celf a thechnoleg gwybodaeth y plant hefyd yn bwysig.

Darparwyd gwledd ar ein cyfer gan gynnwys ymweld â Park Guell a'r rhyfeddol Sagrada Familia, mannau a ysbrydolwyd gan yr artist enwog Gaudi. Buom yn Amgueddfa Badalona a theithio o gwmpas hen dref Rufeinig Baetulo, sy'n rhan o'r Amgueddfa. Roedd hi'n amlwg fod y trigolion yn falch iawn o'u hamgueddfa. Cawsom ein tywys i weld adeiladau llywodraeth Catalunya a chafwyd cyflwyniad diffuant iawn ger y gofeb i'r bobl a fu farw'n ymladd dros annibyniaeth Catalunya 300 mlynedd yn ôl i eleni.

Yn ystod y cyfnod yma o gerdded ar hyd strydoedd Barcelona ac wrth gymdeithasu dros pryd o fwyd y daeth cyfle i holi a thrafod gyda'r athrawon o wledydd eraill am y gwahanol gyfundrefnau addysg. Cyfeirio at ymyrraeth llywodraethau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd oedd pryder bron pawb, a'r ffordd yr oedd plant yn gallu cael eu hanghofio ynghanol y penderfyniadau hyn. Roedd athrawon Iwerddon yn poeni fod eu profion newydd yn canolbwyntio'n ormodol ar yr elfennau academaidd a bod dawn mewn elfen greadigol yn cael ei hanghofio. Yn Ffrainc, roedd yr athrawon yn poeni am ddiwylliant ticio bocsys a bod hynny'n arwain at gwricwlwm anghyson. Ac yng Nghatalunya, roedd anghydfod rhwng yr undebau llafur am amodau gwaith yn siŵr o arwain at streiciau'n y dyfodol agos. Oherwydd hynny, roedd y pennaeth yn ei chael hi'n anodd i berswadio holl staff yr ysgol o werth buddsoddi eu hamser yn y prosiect hwn. Roedd llawer yn gyffredin!

Uchafbwynt y daith heb os oedd ymweld ag Ysgol Planas i Lasals. Ysgol o 456 o ddisgyblion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gataleneg yw hi, ond Sbaeneg yw iaith gyntaf llawer o'r disgyblion. Roedden nhw wedi paratoi llawer o gyflwyniadau a pherfformiadau ar ein cyfer ac roedden nhw'n awyddus iawn i gyflwyno eu treftadaeth a'u traddodiadau ar gân ac mewn dawns. Roedd yr ysgol yn dechrau am 9.00 y bore ac am 11.00 byddai'r plant yn cael brecwast! Byddai amser cinio rhwng 12.30 a 3.00! Yn y cyfnod hwnnw byddai tua hanner y plant yn mynd adre a'r hanner arall yn aros i gael clybiau dan ofal y Gymdeithas Rieni. Byddai'r plant bach yn cysgu! Yna, byddai'r ysgol yn ail ddechrau am 3.00 ac yn gorffen am 4.30. Er bod y plant i gyd yn gyffrous iawn o gael croesawu'r ymwelwyr dieithr, roedden nhw'n gwrtais iawn ac yn hynod hapus. Roedd y dysgu'n hwyl ac efallai'n ddigon anffurfiol ar adegau, ac mewn ardal gosmopolitan fel hyn, roedd hi'n








braf nodi fod rhieni o bob man ar draws y byd yn gweld gwerth i'w plant ddysgu'r iaith leol.

Fel mewn ardaloedd eraill, cynhelir nifer o ddathliadau yn ystod y flwyddyn. Yn ystod ein hymweliad ni, roedd y trigolion yn paratoi ar gyfer fiesta bwysicaf y flwyddyn sef Maig Cremada del Dimoni pan fydd y trigolion yn llosgi delw o'r Diafol ar y traeth. Cawsom flas ar y digwyddiadau pan ddaeth criw o ddawnswyr lleol i berfformio gyda'u tân gwyllt ar iard yr ysgol!

Ac yna nôl i Gymru, wedi gwneud llawer iawn o ffrindiau newydd a gadael ar ein holau pobl hynod glên a balch a brwdfrydig dros gadw eu treftadaeth, eu hunaniaeth a'u traddodiadau'n fyw.

**Mr Jones a Miss Michelle**

# Ysgol Pen-llwyn

### Comenius

Yn ddiweddar fe groesawom ni griw o 25 o athrawon a phlant o wledydd eraill. Mae Ysgol Pen-llwyn yn rhan o brosiect Comenius, ac mae gennym bartneriaid yn Iwerddon, Ffrainc, Sweden, Denmarc a Chymru. Roedd y criw yma yn treulio wythnos yn ein cwmni. Ein Ysgol bartner yng Nghymru yw Ysgol Penparc, ger Aberteifi. Roedd y cyfrifoldeb o edrych ar ôl yr ymwelwyr yn cwympo ar eu hysgwyddau nhw ar ddechrau'r wythnos, yna trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i ni ym Mhen-llwyn yng nghanol yr wythnos. Cafodd yr ymwelwyr wythnos fendigedig o ran y tywydd ac o ran y profiadau amrywiol a gawson.
I ddechrau fe fuon nhw mewn canŵ ar yr afon Teifi o Gilgerran tuag at Aberteifi. Buon ni'n cerdded yr arfordir o Wersyll yr Urdd Llangrannog lawr i bentref Llangrannog. Taith sy'n gyfarwydd iawn i filoedd o bobl Cymru. Ymwelon nhw â amgueddfa Wlân Dre-fach er mwyn dysgu ychydig am ein treftadaeth.
Ar ôl cyrraedd Pen-llwyn, fe gawson ni Farbeciw i holl ddisgyblion a rhieni'r Ysgol er mwyn croesawu'r ymwelwyr. Cafwyd noson arbennig iawn. Diolch i'r rhieni am drefnu a gweithio yn galed ar y noson. Aethon ni a'r ymwelwyr ar daith i Fferm Cwmwythig er mwyn gweld fferm deuluol Gymreig ar waith. Aethon ni ar daith ar y tren i Bontarfynach a mwynhau dro o gwmpas y rhaeadrau. Aeth yr wythnos yn hwylus dros ben, ac aeth pawb adre yn flinedig iawn, ond yn hapus iawn gyda'r profiadau gwych.

### Noson Bwydydd y Byd Cathy

Gwnaeth PTA yr ysgol ynghyd â Cathy ein cogyddes drefnu noson Bwydydd y Byd. Roedd Cathy yn awyddus i gael y rhieni at ei gilydd er mwyn ymlacio a mwynhau bwydydd gwahanol o'r Byd. Buodd Cathy yn paratoi gwledd trwy'r prynhawn gydag ychydig o help gyda'u ffrindiau. Fe gawsom amrywiol fwydydd megis Tagine Cig Oen o Morocco, Cyri Gwyrdd o wlad Thai, Cyri o'r India, reis a Cous Cous. Roedd bwydydd o Sbaen, India, Morocco a llawer o wledydd eraill. Roedd boliau pawb yn llawn, a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolch Cathy a'r PTA am drefnu.

### Oakwood

Mae plant dosbarth 2 wedi dechrau thema newydd. Ein thema yw Peiriant Sgrech. Fel sbardun i'r thema, aeth dosbarth 2 gyda Ysgol Penrhyn-coch ar daith gyffrous i Barc Oakwood. Agwedd bwysig o'r gwaith yw edrych ar grymoedd a mudiant, ac felly lle gwell i brofi amrywiaeth o rymoedd nac ar reids Oakwood!. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn, ac er yr holl chwerthin a sgrechen, fe lwyddwyd i ddysgu ychydig hefyd.



Bechgyn yn mwynhau a gwlychu yn Oakwood.



Criw Comenius wrth ymyl y tren ym Mhontarfynach



Plant yr Ysgol ar y tren i Bontarfynach gyda chriw Comenius



Ein Llysgenhadon efydd yn dal Baton y Gymanwlad



Ymwelwyr Comenius ar arfordir ger Llangrannog

### Llyfrgell Genedlaethol

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i fyny i'r Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar er mwyn mynychu gweithdy. Bwriad y daith oedd i edrych ar rai o gasgliadau'r Llyfrgell am Hanes Aberystwyth. Gwelwyd hen *Cambrian News*, hen fapiau a lluniau a llyfrau o oedd yn llawn o hanes y dre. Bydd blwyddyn 6 yn defnyddio'r wybodaeth yma yn eu gwaith ysgol wrth weithio ar becyn pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ardal Aberystwyth. Diolch i Rhodri yn y llyfrgell am drefnu'r gweithdy.

### Taith Baton y Gymanwlad

Peth braf oedd gweld Llysgenhadon Efydd yr Ysgol sef Llŷr Evans a Laura Jones Williams yn rhedeg gyda'r baton pan deithiodd drwy Aberystwyth yn ddiweddar. Dwi'n siwr bydd y ddau disgybl yma yn cofio'r profiad yma am amser hir.

# Ysgol Rhydypennau

## Eisteddfod yr Urdd

Yn hytrach na' ymlacio a mwynhau gwyliau hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod yr Urdd yn Y Bala. Roedd ein hunawdwr pres, Tomos Lyons, y Parti Cerdd Dant a'r Dawnswyr Gwerin yn perfformio ddechrau'r wythnos gyda'r bwriad o gyrraedd llwyfan y Pafiliwn. Perfformiodd pawb yn wych ac er fod pob beirniadaeth yn galonogol tu hwnt; aflwyddiannus oedd y cynnig i gyrraedd y llwyfan. Hen dro!

Hoffa'r ysgol ddiolch i'r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan' diolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams a Miss Mared Howells am eu hyfforddiant arbenigol dros yr wythnosau diwethaf.

## Llyfrgell Genedlaethol

Fel rhan o gynllun pontio 'Twristiaeth yn Aberystwyth' rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd ardal Aberystwyth fe aeth blwyddyn 5 a 6 i'r Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar. Dan arweiniad Rhodri Morgan, cafodd y plant gyfle i astudio hen fapiau gwerthfawr a darluniau hynafol. Buont hefyd yn ymchwilio papurau newydd lleol a chwblhau gweithgareddau difyr dros ben.

## Llangrannog

Yn ddiweddar fe deithiodd 26 o blant blynyddoedd 5 a 6 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am dridiau o ddifyrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys merlota, nofio, gwibgartio a sgio. Dychwelodd y plant i'r ysgol b'nawn Mercher wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn, er teimlo braidd yn flinedig!

## Lluniau

Ar yr 22ain o Fai fe ddaeth ffotograffydd Cwmni Tempest i'r ysgol. Mae lluniau'r dosbarthiadau, y grwpiau amrywiol a berfformiodd yn ystod y flwyddyn a thimau chwaraeon yr ysgol ar gael i'w harchebu nawr.

## Garddwest

Mi fydd ein Garddwest eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Gwener olaf mis Mehefin. Mi fydd y noson yn dechrau am 5 yr hwyr ac yn cynnwys adloniant gan blant blwyddyn 6.

## Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Mehefin:-
1af-£25-Ianto Bowen Jones. Cwm Pennant. Penrhyncoch
2il-£15-Caryn James. 7 Dolhelyg. Penrhyncoch.
3ydd-£10-Lowri Powell. Maes yr Efail. Penrhyncoch.

## Gwefan yr Ysgol

Rydym ar hyn o bryd yn adnewyddu ein gwefan. Mi fydd y wefan ar ei newydd wedd yn cynnig nifer o ddatblygiadau newydd ac yn cynnig moddau gweledol amgenach. Gobeithio ail-lansio cyn hir.
Os ydych yn trydar; dilynwch ni ar @YRhydypennau.



Mwynhau Gwersyll Llangrannog



Gweithgareddau wrth ymwneud â'r Llyfrgell Genedlaethol



Y parti cerdd dant




Y tîm dawnsio gwerin



Unawd pres - Tomos Lyons

# Tasg y Tincer



**Dylan Jenkins**

Llongyfarchiadau mawr i bawb o ardal *Y Tincer* gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd Mai, a diolch i bob un ohonoch fu'n lliwio llun masgot Cwpan y Byd, a'r babell liwgar y mis diwethaf. Am luniau da!

Dyma'r enwau:

Glain Erin Jones, Tal-y-bont, Dylan Jenkins, Cwm Ywen, Penrhyn-coch; Alexis Phillips, Bow Street; Elin Pierce Williams, Bow Street; Gwawr Morgan, Llandre; Kaedi Owen, Bow Street; Lisa Sills-Jones, Y Borth; Megan a Siân Evans, Capel Dewi; Morgan Jac Lewis, Capel Bangor; Sali Jenkins, Clydach; Harri van de Vyver, Y Fenni.


Diolch hefyd i ti, Annie May o Benrhyn-coch, am dy lun o'r ferch yn yr het Basg – grêt!

Dy enw di, Dylan Jenkins, ddaeth o'r het y tro hwn – llongyfarchiadau mawr.

Wyddoch chi be welais i yn harbwr Aberystwyth rai dyddiau yn ôl? Dolffiniaid yn neidio rhwng y tonnau! Ydech chi wedi gweld dolffin yn y môr, tybed? Maen nhw'n greaduriaid gosgeiddig a chlyfar dros ben. Mae 26 Gorffennaf – 3 Awst yn Wythnos Genedlaethol Gwylio Morfilod a Dolffiniaid, dan ofal corff o'r enw y Sea Watch Foundation. Mae'r sefydliad am i ni roi gwybod iddyn nhw pan welwn ni ddolffin neu forfil yn y môr. Rhaid sbïo'n ofalus iawn, cofiwch – yn aml iawn, rhyw damaid o gynffon neu drwyn sydd i'w weld rhwng y tonnau! Edrychwch ar y we am fwy o fanylion: www.seawatchfoundation.org.uk

Wrth gwt yr wythnos honno daw wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn ardal Llanelli. Pob hwyl i bawb fydd yn mynd yno, a gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau eich gwyliau haf.

Y mis hwn, beth am liwio llun y dolffin a'r pysgod bach yn ymlacio yn y dŵr cynnes? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Medi 1af a wela i chi fis Medi!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
JEAN JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 370 | MEHEFIN 2014